

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr



Tudalen 9

YSGOL GWAUN GYNFI



Tudalen 20

CYLCH MEITHRIN



Tudalen 25

RHEDWYR PENISARWAUN



ECO'r Wyddfa

Rhif: 416
Rhagfyr 2013
Pris: 50c

“Mae llaw y gaeaf oer....”

Flwyddyn union yn ôl, llifogydd oedd yn cael sylw wrth i'r ardal, ac yn enwedig Llanberis, ddioddef effeithiau glawogydd trwm dros nifer o ddyddiau. Eleni, eira sy'n gorchuddio cribau Eryri, ac yn dynodi fod tymor y gaeaf ar ein gwarthaf. Tynnwyd y llun hwn o gopa Moel Eilio ganol Tachwedd.

Pencampwyr Gogledd Cymru.

Mae llwyddiant Band Deiniolen yn parhau. Yn dilyn ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Awst eleni, cipiodd y band y brif wobr yng nghystadleuaeth bandiau pres gogledd Cymru ddiwedd fis Hydref yn Llandudno dan eu harweinydd Lois Eifion. Mwy o'r hanes ar dudalen 3.



Jeni Lyn Morris, enillydd Tlws Coffa Iwan Williams a'i thad, Ieuan Morris, unawdydd gorau. (Band Deiniolen)



Lois Eifion, arweinydd Band Deiniolen, Pencampwyr Gogledd Cymru.

Ioan Ellis Hughes, unawdydd gorau adran ieuenctid. (Band ieuenctid Llanrug)

E Rhifynnau'r hysbysebion.

Yn draddodiadol, dyma'r cyntaf o ddau rifyn cyn y Nadolig sy'n rhoi cyfle i fusnesau'r fro ddymuno gwyliau llawen a dedwydd i'w holl gwsmeriaid. Dymunwn ninnau, bwyllgor rheoli “Eco'r

Wyddfa”, ddiolch iddynt am eu cefnogaeth gydol y flwyddyn, a dymuno pob llwyddiant i'w busnesau yn y flwyddyn sydd i ddod. Heb eu cefnogaeth ariannol, ni fyddai golwg mor llewyrchus ar ein papur bro.

RHIF 415 Tachwedd 2013

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn

Nadolig

Copi i law

Rhagfyr 8

Bwndelu

Rhagfyr 19

Ble

Llanrug

LLYTHYRAU

Cofio Llywelyn.

Annwyl Olygydd

Gyda'r perygl o'r Albanwyr yn pleidleisio dros annibyniaeth i'w gwlad mewn refferendwm y flwyddyn nesaf mae'r gyfundrefn Brydeinig wedi ymateb yn hysterig. Mewn ymgais i'n cadw yn gefnogol i'r oruchafiaeth Seisnig ym Mhrydain maent am i ni goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf a rheiny a gollodd eu bywydau yn ymladd dros yr Ymherodraeth Brydeinig. Gobeithiant trwy hyn y byddwn ni, yn nhiroedd Celtaidd gorchfygedig Prydain, yn anghofio ein dyheadau cenedlaethol a dal i greu yn y myth Prydeinig.

Mae achlysur hanesyddol sy'n fwy perthnasol i Gymru, fel cenedl, ei goffau, pan ymladdodd a bu farw Cymry dros ryddid. Ar Ragfyr 11, 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru, ynghyd â miloedd o'i filwyr yng nghyffiniau Cilmeri wrth ymyl Llanfair ym Muallt yn ymladd i gadw Cymru yn rhydd o ormes Lloegr. Claddwyd corff Llywelyn yn Abaty Cwmhir. Aethpwyd â'i ben i Lundain fel troffi. Credir i gyrff ei filwyr orwedd mewn bedd torfol o dan gwrsgolff Llanfair ym Muallt.

Fel sy'n digwydd bob blwyddyn ers 60au'r ganrif ddiwethaf coffeir y trychineb hwn yn hanes Cymru trwy gynnal seremoni yng Nghilmeri ar y dydd Sadwrn agosaf i Ragfyr 11eg sef Rhagfyr 7fed eleni. Cynhelir hefyd ar ddydd Sul, Rhagfyr 8fed seremoni coffau yn Llys Rhosyr ar gyrion Niwbwrch ar Ynys Môn. Yn Llys Rhosyr mae olion yr unig un o lysoedd Llywelyn, y cafwyd hyd iddo, i'w gweld.

Dylai pawb sy'n dymuno cymryd rhan ymgynnull wrth ymyl Institiwt Niwbwrch am 1.30 o'r gloch. Cyn hynny yn y bore caiff torchau eu gosod ar gofologfn Llywelyn y tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon am 12.30 o'r gloch.

Os ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig coffau'r rheiny, "dros ryddid collasant eu gwaed", gobeithiwn eich gweld yn y seremonïau hyn.

Yr eiddoch yn wlatgar

Chris Schoen
Penygroes, Gwynedd

Cronfa Goffa R.H. Owen

Mewn cyfarfod o Ymddiriedolwyr y Gronfa ar nos Lun, Hydref 14 2013. ymdriniwyd â cheisiadau am grantiau a ddaeth i law. Derbyniwyd tri ar ddeg o geisiadau eleni, sef chwech o gymuned Llanberis, dau o gymuned Llanrug a phump o gymuned Llanddeiniolen.

Gan fod pob cais yn ddilys, balch oedd yr Ymddiriedolwyr fod y Gronfa mewn cyflwr ariannol i ateb pob un ymgais yn ffafriol. Tystiolaeth yw hyn fod Cronfa R.H. Owen yn rhoi grantiau i ddisgyblion talgylch Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug, sydd yn byw yn ardaloedd y Cyngorau Cymuned.

Ar hyn o bryd mae'r holl arian i dalu'r grantiau yn dod o logau buddsoddiad y Gronfa a chyfraniadau a dderbynnir oddi wrth garedigion.

Fel y gwyddoch, y mae llogau wedi disgyn yn ystod cyfnod y dirwasgiad ariannol presennol, ac y mae yn broblem codi'r arian ar gyfer y grantiau.

Yn y gorffennol bu Cyngor Cymuned Llanberis yn hynod hael a chefnogol, ond gan fod Cyngorau Cymuned Llanrug a Llanddeiniolen wedi gwrthod cyfraniad i goffau'r Gronfa, teimlai Cyngor Cymuned Llanberis nad teg oedd i gefnogi y cais tra yr oedd y ddau gyngor arall yn gwrthod.

Ni all Ymddiriedolwyr y Gronfa ddaeth ymateb negyddol Cyngor Cymuned Llanrug a Llanddeiniolen, oherwydd mae ieuencid o'r ardaloedd yn derbyn grantiau a hynny ers blyneddau.

Yn sicr, mae'r ymddygiad plwyfol, cyntefig hwn yn amharu ar ymdrech yr Ymddiriedolwyr i fod o gynhorthwy i bobl ifanc y fro. Beth sydd o'i le, tybed? Pa ddrwg sydd yn y caws? Hwyrach y ceir ateb i'r diffyg cefnogaeth a fodola. Ta waeth, fe ddeil yr Ymddiriedolwyr yn ffyddiog o gyflawni un o brif ddymuniadau'r diweddar R.H. Owen, sef i roi cefnogaeth deilwng i ddinasyddion dyfodol ein bro.

Ond i ddarfod at gywair mwy derbyniol, manteisiaf fel ysgrifennydd i ddatgan ein gwerthfawrogiad fel Ymddiriedolwyr, i garedigrwydd Swyddogion Eco'r Wyddfa tros yr holl flynyddoedd. Cyhoeddwyd hysbysiadau y Gronfa yn hollol ddi-dâl bob amser, a hynny gyda manylder cywraïn.

Diolch i chi am eich cydweithrediad parod bob amser.

John H. Hughes

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copïau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £15.00 - gwledydd Ewrop £33.50
- gwledydd eraill £42.50 Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Nannie, 26 Bryntirion, Penisarwaun; Sgotwr Prygen; Anne a Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis; Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Llanrug; Er Cof am Mrs Dilys Baylis.

£10: Derek a Freda Jones, 62 Maes Padarn, Llanberis; Trefor a Heulwen, Stryd Fawr, Llanberis; Margaret Griffiths, 7 Llainwen Isaf, Llanberis; Louie Pritchard, Dôl Eilian, Llanberis; Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog, Deiniolen; Margaret, Siân, Nia a Mari, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Cissie Rowlands, Corlan y Bont, Deiniolen; Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen, Deiniolen.

£5: Betty, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, Penisarwaun; Eiriona Williams, 7 Bro Rhos, Bethel; Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Deiniolen; Teulu Eryri Wen, Waunfawr, er cof am Ronwen; Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Carrie Owen, Tŷ Fry, Ffordd yr Orsaf, Llanrug

Llun Clogwyn, Deiniolen.

Dyma wybodaeth am y llun a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf o'r "Eco".

Y rhai heb eu henwi ydi: Hywyn Williams, 1 Rhydfadog (yn eistedd), Meirion Roberts, 47 Rhydfadog i'r dde, Valerie Jones, Cae Tai ar y pen a Sylvia O'Dwyer ail o'r dde yn y cefn. Roeddwn yn gweithio yn Clogwyn yn ystod gwyliau'r haf tra yn y cheched dosbarth yn Ysgol Brynrefail a hefyd yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y coleg, sef 1972, '73 a '74. Credaf i'r llun gael ei dynnu yn 1972, oherwydd symudodd y ffatri i safle ar Allt Sam tua 1973.

Cyn symud i Bryngwynt roedd Denny a Shirley yn rhedeg y busnes o'r hen sinema oedd dros y ffordd i garej Rhiwan. Mae'r ddau adeilad wedi eu dymchwel erbyn hyn.

Cofion

Hywyn Williams

Pencampwyr Gogledd Cymru

(parhad o'r dudalen flaen)



Band ieuenctid Deiniolen

Mae'n glod i'r ardal fod y ddau fand o fewn ein bro yn cystadlu yn yr adran agored, ac mai bandiau bro'r "Eco" felly yw prif fandiau gogledd Cymru. Llanrug oedd yn ail yn y gystadleuaeth dan eu harweinydd Paul Hughes.

Ond ar y diwrnod, aeth Deiniolen un yn well eto, gan ennill pob cystadleuaeth o fewn y brif adran. Roedd rheidrydd ar i bob band chwarae ton fel rhan o'u datganiad, a Deiniolen a orfu yn y gystadleuaeth honno hefyd. A dyfarnwyd Ieuan Morris, cornetydd Deiniolen fel unawdydd gorau'r gystadleuaeth. Ond doedd y tad ddim am gael yr holl sylw chwaith, oherwydd ei ferch, Jeni Lyn gipiodd Wobr Goffa Iwan Williams am y chwaraewr flugel gorau ar y diwrnod – a hynny'n cynnwys chwaraewyr o bob adran.

Ac y mae dyfodol y ddau fand yn eithaf sicr gan fod bandiau ieuenctid Deiniolen a Llanrug yn cystadlu hefyd. Daeth Deiniolen, dan arweiniad Osian Tomos, yn ail yn Adran 6a, a Llanrug yn ail yn Adran 6b. A dyma'r tro cyntaf i Fand Ieuenctid Llanrug gystadlu dan arweiniad Dyfrig Owen. Cychwyn addawol felly i'r arweinydd ifanc, ac i roi'r eisin ar y gacen, enillodd ieuenctid

Llanrug y gystadleuaeth chwarae ton, a dyfarnwyd y cornetydd Ioan Ellis Hughes yn unawdydd gorau'r adran. Dyna fachu cyfran dda o wobrau i'r fro. Llongyfarchiadau i'r ddau fand.

Ond roedd gan Fand Deiniolen achos ychwanegol i ddathlu, oherwydd maent newydd dderbyn grant ariannol o £10,000 gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd sydd wedi eu galluogi i brynu cynr newydd i aelodau'r Band Ieuenctid. Gyda'r arian prynwyd deg o gyrn newydd sbon, gan gynnwys cornet, horn, iwoffoniwm a baritone. Meddai Osian Tomos, arweinydd y Band Ieuenctid, "Mae'r cynr newydd eisoes yn cael eu defnyddio gan rai o aelodau'r band, a'r hen gyrn wedi eu trosglwyddo i ofal y band iau, sef y dysgwyr." Llio, gwraig Osian, sydd yn hyfforddi'r band iau. Dywedodd Meirion Jones, ysgrifennydd Band Deiniolen, "Rydym yn hynod ffodus yn cael Osian a Llio yn hyfforddi ieuenctid y band, ac yn ddiolchgar iawn i Gartefi Cymunedol Gwynedd am y grant ariannol hael sy'n sicrhau fod cynr o safon ar gael i'r ieuenctid berfformio."



Band Llanrug



Band ieuenctid Llanrug

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

FFAIR NADOLIG MENTER FACHWEN

Bydd Ffair Nadolig Menter Fachwen yn cael ei chynnal yn Y Caffi, Cwm y Glo ar Ddydd Iau Sed Rhagfyr rhwng 11y bore a 4 y prynhawn. Bydd raffl fawr, stondinau gyda chynnyrch Menter, panad a mins peis ar gael.

Byddwn hefyd yn arddangos a thaflunio holl hen luniau bro'r Eco mae'r cynllun wed'i'i gasglu hyd yma, ac mae yna nifer helaeth ohonynt. Hefyd, byddwn yn taflunio cwpl o hen ffilmiau o'r fro sydd wedi eu darganfod. Os oes gennych unrhyw hen lun o'r ardal i ni gael ei weld cofiwch ddod a nhw. Bydd croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Lenyddol Undebol

Cychwynnwyd gweithgareddau'r Gymdeithas nos Fawrth diwethaf gydag adloniant gan barti canu o Ddeiniolen, sef Lleisiau Llanbabs. Wrth groesawu pawb ynghyd cyfeiriodd Llywydd y noson, Glenys Griffiths, at lwyddiannau'r parti dros y blynyddoedd, dan arweiniad Lyndsey Vaughan ac Eleri Bean yn cyfeilio, a hynny yn yr Ŵyl Ban Geltaidd ac yn Eisteddfodau'r Urdd. Cafwyd amrywiol ganeuon ganddynt a braf oedd gweld y rhai ifainc yn amlwg yn mwynhau'r canu yn ogystal â chwech o ferched hŷn hefyd, hwythau yn cyflwyno dwy gân. Diolchwyd ar ran y Gymdeithas gan Robin Jones, a diolch hefyd i'r merched am baratoi lluniaeth i bawb ar ddiwedd y noson.

Clwb Bro Bethel Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Anfonwyd cofion at John Evans, Penparc, sydd wedi bod yn yr Ysbyty ond erbyn hyn wedi dod adref ac yn gwella, a chydymdeimlwyd â Nancy Williams, Rhoslyn, sydd wedi colli ei brawd. Braf oedd cael datgan bod y Clwb wedi derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Llanddeiniolen a bod yr Ysgrifennydd wedi anfon llythyr o ddiolch i'r Clerc. Y gwr gwadd oedd Maldwyn Roberts, Swyddog Datblygu Prosiectau Age Cymru, Gwynedd a Môn. Soniodd sut mae Age Cymru yn cynnig nifer o wasanaethau fel gosod Clybiau Cinio i fyny, cynllun Ffrindiau, llenwi ffurflenni, siop elusennol ac yn y blaen,

a hefyd yn cynnig cyngor a gwybodaeth ar unrhyw fater, bach neu mawr, i bobl oeddrannus. Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad gan y Llywydd, a diolch i Beti Owen a Gwyneth Williams am baratoi'r banad.

Diolch Dymuna Eiriona Williams, 7 Bro Rhos, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da tuag ataf yn dilyn fy llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Merched y Wawr Cynhaliwyd cyfarfod Tachwedd yn festri Capel Cysegr, Bethel nos Fercher, Tachwedd 13eg, gyda Jen, y Llywydd, yn croesawu pawb i'r cyfarfod. Dechreuwyd y noson drwy canu cân y mudiad gyda Bet yn cyfeilio.

Llongyfarchwyd Mair Williams ar ddod yn nain unwaith eto wedi i Llinos ac Andrew gael merch, Mali Siôn, chwaer i Deio Siôn. Hefyd Gwyneth Jones a ddaeth yn nain i Non Marie, merch fach i Kim a Dafydd.

Dymunwyd gwellhad buan i John, gŵr Liz Penparc, fu yn ysbyty Gwynedd ar ddau achlysur yn ddiweddar.

Dywedodd Jen iddi osod torch ar ran Merched y Wawr ar y gofeb fore Sul y Cofio.

Dymunwyd yn dda i Ffion Glyn, merch Eirlys Williams, sydd wedi cael rhan yn y pantomeim 'Draw Dros y Don' efo Martyn Geraint. Braf iawn oedd clywed fod Ffion wedi dod nôl i Gymru i weithio wedi cyfnod yn Llundain.

Braf cael dweud fod 2,320 wedi ymweld â gwefan y gangen eto'r mis yma, dipyn mwy na'r mis blaenorol. Cofiwch mywbethel.org

Penderfynwyd peidio cael

stondin ond cefnogi'r Ffair Grefftau fydd yn y Neuadd Goffa, Sadwrn 30 Tachwedd. Mae Noson Goffi yn y neuadd nos Wener, 22 Tachwedd, bydd aelodau pwyllgor y neuadd yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad.

Cytunodd Anne Elis i'w henw fynd mlaen i'r swydd o is-Ysgrifennydd Cenedlaethol.

Croesawyd ein gwraig wadd, Anna Pritchard, Glasinfryn, gan Jen. Mae hi'n ferch fferm o Glasinfryn ac yn fam i ddau o blant – Cadi (4) a Guto (2). Ym Manceinion y bu'n gwneud ei chwrs coleg a gwehyddu oedd ei phwnc. Ar ôl ennill Ysgoloriaeth yr Eisteddfod Genedlaethol 2008 treuliodd gyfnod yn Halifax yn arbenigo ymhellach mewn gwehyddu.

Mae'n arlunydd ac yn ddyluniwr, ac mae ei gwaith wedi cael ei arddangos mewn sawl lle gan gynnwys Oriel Tegfryn, Oriel Glyn y Weddw ac yn Tonnau ym Mhwllheli. Dyma ddywed gwefan Tonnau - "Ganwyd a magwyd Anna Pritchard ar fferm yng Ngwynedd a daeth ei hysbrydoliaeth ar gyfer ei thecstilau diweddaraf o sawl harbwr hardd a phrysur o gwmpas ei chartref. Gyda brwdfrydedd amlwg at liw a siapiau amlwg mae'r arlunydd yn ail greu y cynnwrf a deimlir yn y trefi morwrol.

Erbyn hyn mae Anna yn canolbwyntio mwy ar wehyddu gan obeithio defnyddio mwy o wlaen Prydeinig yn y dyfodol.

Mae Anna yn mynd i ysgolion lleol i weithio efo plant ar themâu gwahanol, bu'n dysgu'r plant i wneud brodwaith i gyd fynd â thema'r ardal leol

mewn un ysgol a gwehyddu mewn ysgol arall. Daeth â chasgliad o'i gwaith i ni i'w weld. Mwynhaodd pawb weld yr holl waith chwaethus iawn a chael cyfle i brynu. Edrychwn ymlaen i weld mwy o'i gwaith ar wefan mae'n awyddus i'w sefydlu ac mewn ffeiriau crefft yn y dyfodol. Diolchwyd i Anna gan ddymuno'r gorau iddi i'r dyfodol gan Gwyneth Jones.

Dymunodd Gwyneth yn dda hefyd i Jen fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ddiwedd yr wythnos.

Diolch i Nora am drefnu'r baned a Glenys a Liz Watkin am helpu, a llongyfarchiadau i Edwina enillodd y raffl.

Mis nesaf byddwn yn dathlu'r Nadolig yn y Copa, yn Llanberis, Os oes unrhyw un ddim wedi dod â'r ffurflen fwyd a'r arian yn ôl, dowch â fo mor fuan â phosibl i Anne, Jen neu Gwyneth.

Aeth tri thîm o'r gangen i gystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol yn Seiont Manor, Llanrug nos Wener, 15fed Tachwedd. Tîm Penrhosgarnedd oedd yn fuddugol yn Rhanbarth Arfon, gyda Rhiwlas yn ail a Glannau Llyfni yn drydydd. Yn y frwydr rhwng tri thîm Bethel, tîm 3 efo Mair Read, Anita, Nan a Liz daeth i'r brig; tîm 2 Bethel efo Glenys, Nora, Anne a Jen yn ail a Bethel 1 yn drydydd efo Gwyneth, Beti a Mary. Diolch i Mair Price am y trefniadau trylwyr, i Gwyneth, Ann Lewis, Sharon a Eleri am helpu efo'r marcio. Llongyfarchiadau i Jen ar ennill y raffl ac am fod mor barod i rannu'r tin siocled efo pawb.

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros **25 Mlynedd**

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ORIAU AGOR
5.30am-7pm
(Llun-Sadwrn)
5.30am-3pm(Sul)
10 a.m.-12pm
(Diwrnod Nadolig)



Sefydliad y Merched Nos Lun, Tachwedd 11eg, cafwyd noson o Gawl a Chân gwerth chweil yn Llanberis yng nghwmni Côr Dyffryn Peris. Fe wisgodd pob aelod o'r Côr rhuban gwyn i gefnogi ymgyrch Sefydliad y Merched 'Nid yn fy enw i' er mwyn codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn merched.

Nos Fercher, Tachwedd 13eg, cafwyd noson o Fowlio Deg ym Mharc Glaslyn – noson o hwyl yn y gweithgareddau a phryd o fwyd cyn troi am adref.

Bydd llawer o weithgareddau ymlaen cyn diwedd y flwyddyn. Wedi'r Cyfarfod Blynnyddol ar Dachwedd 21ain dan ofal Margaret Lloyd Jones, bydd nifer o'r aelodau yn ymuno yn y gweithdai Bocus Mosaic a Chreffft Siwgwr ym Mhlas Tan y Bwlch ar Dachwedd 29ain a Rhagfyr 2il. Yna nos Wener, Rhagfyr 6ed am 7 o'r gloch bydd Noson Garolau Eryri yn Eglwys Glanadda, Bangor. Yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis ar Ragfyr 16eg bydd y noson Bingo Nadolig a chinio Nadolig y gangen leol ym Mwyty Caban ar Ragfyr 19eg.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd

Blychau Nadolig Paratowyd nifer teilwng o Flychau Nadolig unwaith eto eleni. Gwerthfawrogi'r fawr yr ymateb arbennig gan aelodau'r eglwys ac mae ein diolch i Jennie A. Roberts am ei gwaith yn trefnu'r cyfan.

Oedfaon Rhagfyr

- 1 am 5.30: Parch Harri Parri, Caernarfon
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 8 am 5.30: Parch Geraint Roberts, Porthaethwy
- 15 am 2.00: Gwasanaeth Nadolig dan arweiniad y
Gweinidog a'r aelodau
- 29 am 5.30: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

SFP

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445

OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref

OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref

GOLEUADAU ARGYFWNG

LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

REGISTERED FIRE

INSURANCE

BEICS MENAI

SEL NADOLIG

BEICS NEWYDD ac OFFER BEICIO
AR GYFER OEDOLION A PHLANT

Beics Trydan ar gael
FREEGO a POWABYKE
Newydd ac Ail-law

AM
BRIS
CALL!

Claud Butler Dawes

(01286)676804 neu 07770951007

BEICS MENAI 1 Cei Llechi Caernarfon

e/bost-hire@beicsmenai.co.uk

WRTH Y
CASTELL

Babi Newydd Ar 27 Hydref ganwyd mab i Arwyn a Karina yn dwyn yr enw Noa Siôn, brawd bach i Guto Rhys. Unwaith eto mae Margaret ac Alwyn, 5 Bro Elidir, yn nain a thaid, ac wedi gwirioni'n lân. Llongyfarchiadau mawr iddynt fel teulu, a gobeithio y cânt nerth ac iechyd i'w ddwyn i fyny. Pob lwc.

Marwolaeth Ar ddydd Sul, 27 Hydref, bu farw Mr Rex Faulkener, Fron Dirion, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yn 90 mlwydd oed. Bu ei angladd yn Eglwys St Helens, Penisarwaun, ar Dachwedd 11eg a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent yr Eglwys. Cydymdeimlwn yn fawr â Jerry, ei fab, a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

Gwellhad Buan Mae nifer o'r ardal wedi bod yn cwyno yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt. Hefyd anfonwn ein cofion fel ardal at Mrs Alice Thomas yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis gan obeithio ei bod hithau yn cadw yn weddol yn ystod y tywydd oer yma, ac eira cyntaf y flwyddyn wedi ymddangos ar yr Wyddfa.

Sgwarnaw.

Defnyddiwch y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio'r holl lythrennau gallwch ffurfio enw lle yng Nghymru. Rhaid defnyddio'r llythyren yn y sgwar canol ym mhob gair.

Y mis hwn:

20 gair = da;

25 gair = da iawn;

30 gair neu fwy – ardderchog.

B	W	R
G	A	A
L	N	E

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

i'n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym

menter
fachwen

(01286) 872014

Gwasanaethau y Capel Ar Ragfyr 1af am 2 o'r gloch, Y Parch Marcus Robinson.

Ar Ragfyr 15ed am 2 o'r gloch, Y Parch W. R. Williams.

Bydd Oedfa Nadolig Capel Caeathro am 5:30 yh nos Sul, 22 Rhagfyr, yn dathlu Gŵyl y Geni. Yn ogystal â phresenoldeb Gweinidog y pentref, Y Parch Marcus Wyn Robinson, bydd cyfraniadau gan aelodau, plant, pobl ifanc a gwrandawyr yr Eglwys. Bydd yr oedfa ar gyfer y teulu i gyd a chroesewir pawb o bob oed, yn gyd-enwadol, i'r gwasanaeth.

Parti Nadolig y Plant Trwy nawdd cronfa Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro bydd Parti Nadolig ar gyfer plant y fro (oed ysgol Gynradd neu'n iau) ar nos Lun, 16 Rhagfyr. Cynhelir y parti - gyda lluniaeth, adloniant ac ymweliad pwysig, am 5:30 yh yng Nghanolfan y Capel.

Ar nos Iau 19 Rhagfyr am 7:00 yh byddwn yn canu carolau o gylch y goeden Nadolig gyda Seindorf Iau Llanrug. Bydd casgliad tuag at achos da. Wedyn bydd cyfle i gymdeithasu a mwynhau mwg o gawl cartref. Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro fydd yn cyllido'r noson.

Clwb Merched Ar Nos Iau, Hydref 31ain ger tanllwyth o dân cafwyd noson arbennig a chroeso mawr yng Nghastellmai, Caeathro. Wedi lluniaeth rhoddodd y cadeirydd, Beryl Roberts, ychydig o hanes Eurgain Lort, y ferch gyntaf i ymaelodi â Chymdeithas Merlod Cymru yn 1906 ac a fu'n byw yng Nghastellmai hyd at ei marwolaeth yn 1950. Dangosodd Nia ei chasgliad gaeaf o ddillad Siolani, o ddeunydd gwlan a sidan cain, a mawr fu'r edmygedd ohonynt, a chafwyd cyfle i brynu hefyd! Diolchwyd i Nia a Sioned am eu croeso gan Rhiannon Roberts.



Llongyfarchiadau i Rhys Roberts, Erw Wen a Fflur Jones o Gaernarfon ar achlysur eu priodas yn ddiweddar, a dymuniadau gorau i chi eich dau yn y dyfodol.

Hefyd i Berwyn Roberts, Sea View ar ddathlu pen-blwydd yn ddeugain oed.

Profedigaeth Bu farw Mrs Mary Myfanwy Jones, Glanrafon Bach, Caeathro ar Dachwedd 14eg, yn 93 mlwydd oed. Anfonwn gydymdeimlad cywir at Ynyr a Rhys yn eu colled, ac at y teuluoedd oedd yn meddwl y byd o fam, nain a hen nain annwyl.

Tynfa Misol Dyma'r rhestr o enillwyr mis Tachwedd: P. a V. Hughes, Pennant (13): £40; Marcus a Wendy Williams, Glandŵr (83): £25; Bryn a Dilys Griffiths, Delfryn (31): £15; Mark a Linda Jones (80): £5.

Marathon Eryri Diolch i bawb o Gaeathro fu'n helpu gyda gweini te ar gyfer rhedwyr y Marathon.

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn

GAREJ GWALIA

CAEATHRO

Ffôn: 673096

Gwasanaeth

Torri Lawr 24 awr

M.O.T. * Trwsio Ceir

LONDIS

Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

WELDPAR

CYMRU WALES

CANOLFAN OFFER WELDIO

WAUNFAWR Ffôn: 650720

LLYGAD YR HAUL

Caffi/Deli

STRYD FAWR LLANBERIS

Ffon-01286 870814

NADOLIG LLAWEN a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid

NADOLIG LLAWEN

A BLWYDDYN

NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym mro'r Eco

Antur Waunfawr

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

ANTUR

WAUNFAWR

DYMUNA

GWYNFA A MARGARET

PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD

LLANRUG

Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL

Ysgol Cwm y Glo



Daeth Tracy Hull o Banc Bwyd Caernarfon i gynnal gwasanaeth Diolchgarwch i ni ac egluro pwy mae'r Banc Bwyd yn helpu. Roedd y Parchedig Carol Roberts yn y gwasanaeth hefyd. Roedd pawb wedi dod â bwyd i ni roi i Tracy fynd yn ôl i'r Banc Bwyd.



Rydym yn gweithio ar ddarganfod a ceisio datrys problemau ein pentref yn ystod y tymor yma. Rydym wedi bod am dro drwy y pentref yn sylwi ar bethau fel baw cŵn, sbwriel a pyllau dŵr ar y palmentydd. Mae Mrs. Oliver wedi dweud bod pobl yn cwyno am y traffig a'r parcio yn y pentref. Rydym am geisio cael syniadau ar sut i wella ein pentref.



Trefnodd y rhieni Disgo Noson Calan Gaeaf i ni cyn hanner tymor. Cafodd pawb hwyl. Diolch i'r rhieni.

Daeth PC Meirion Williams i'r ysgol i drafod gwaith yr Heddlu efo ni. Mae o am ddod pob tymor rŵan i ddysgu mwy i ni am gadw yn saff.

Rydym wedi cael hwyl yn casglu arian i Blant Mewn Angen. Roedd y staff i gyd yn eu pyjamas! Roedd yn rhaid i ni fod yn dawel am awr gyfan yn ystod y prynhawn. Roedd hynna yn anodd i ni ond rydym yn falch ein bod wedi casglu dros £70 i'r achos. Diolch i bawb am ein cefnogi.

ECO'r Wyddfa

Nadolig Llawen i bawb



Gwellhad Buan Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Vera Price, Tan-y-graig, wedi ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i Bethan Hughes, 17 Dôl Afon, wedi ei llawdriniaeth hithau yn Ysbyty Glan Clwyd.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Emma a Gavin, 12 Dôl Afon, ar enedigaeth merch fach, Lili Angharad, chwaer i Efa Haf ac wyres i Edwina ac Alwyn. Hefyd ganwyd mab bach i Iwan a Camren, sef Efan, brawd i Erin ac ŵyr i Heddwyn ac Irfon, Modurdy Cwm y Glo.

Diolch i drefnwyr y Cyngerdd Mawreddog a gynhaliwyd yn Neuadd Ysgol Brynrefail ar 8fed o Dachwedd. Diolch i'r cyn-ddisgyblion a'r llu disgyblion talentog sydd yn yr ysgol am noson i'w chofio.

Diolch Yn dilyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar dymuna Mrs Vera Price, Tan y Graig, ddatgan ei diolch i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion am eu galwadau ffôn, ymweliadau a chardiau yn dymuno iddi wellhad buan. Diolch yn fawr i chwi i gyd.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau ac eraill ym Mron Menai Caernarfon ar 19 Tachwedd. Cafwyd cinio Nadolig blasus iawn a'r diwrnod wedi ei drefnu gan Iola Jones. Enillwyd y raffls gan Jenny Salisbury Jones a Dorothy Jones. Diolchwyr i Iola a staff Bron Menai gan Joyce Ransom a Hilda Orritt. Pnawn Mercher, 11 Rhagfyr, am ddau o'r gloch yn y Gadeirlan Bangor: Gwasanaeth a Charolau. Pnawn Mawrth, 17 Rhagfyr, am ddau o'r gloch yn Eglwys Sant Mair Caernarfon: Gwasanaeth a Charolau.

HO! HO! HO!

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth pawb yn

Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn!

Mae'r amgueddfa ar agor drwy'r flwyddyn - dewch am dro!

Oriau agor dros y gaeaf: Hydref - Mawrth 10am - 4pm Sul - Gwener
Cyfnod y Nadolig : ar gau 24,25,26, 27, 28 Rhagfyr 2013 a 1 Ionawr 2014

Amgueddfa Lechi Cymru, Parc Padarn, Llanberis
☎ 02920 573700 www.amgueddfacymru.ac.uk

national museum
wales
amgueddfa
cymru

Ysbyty Gyn Gyffwrdd
Cyfeirir i'r
Gwasanaeth
Meddygol
Llanberis
Llanberis
Llanberis
Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll oddi wrth pawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328



Margaret Williams a Nia Morris (gwraig a merch y diweddar Ellis Wyn) yn cyflwyno sic o £1,166, sef elw'r cyngerdd a gynhaliwyd er cof amdano gan Seindorf Arian Deiniolen. Cyflwynwyd y sic i Mr Richard Williams o Ysbyty'r Frest a'r Galon, Lerpwl. Diolch yn fawr i'r Seindorf am drefnu'r noson ac i bawb a gefnogodd y noson yn Theatr Seilo ar yr 28ain o Fedi.

Cylch Meithrin Deiniolen Cynhaliodd y Cylch Meithrin noson Tân Gwylt lwyddiannus unwaith eto eleni. Dymuna'r staff a'r pwyllgor ddiolch i bawb a fynychodd ac i'r rhai hynny a oedd yn fwy na pharod i roi help llaw ar y noson. Diolch yn fawr hefyd i Gŵyl Deiniolen a'r Cylch am ein noddi unwaith yn rhagor eleni.

Mae deg plentyn newydd wedi cychwyn gyda ni yn y Cylch erbyn hyn. Braf yw gweld fod pob un ohonynt wedi setlo'n dda gyda ni.

Bydd cyngerdd Nadolig plant bach y Cylch yn cael ei gynnal yn Festri Capel Eben unwaith yn rhagor eleni ar ddydd Gwener, 20fed o Dachwedd, am 12 o'r gloch. Bydd Siôn Corn yn ymweld â hwy yn ystod y te parti fydd yn cael ei drefnu ar gyfer y plant.

Hoffai'r staff a'r pwyllgor gymryd y cyfle i ddiolch i

bawb am yr holl gefnogaeth a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll, gan obeithio y bydd Siôn Corn yn garedig â holl blant y pentref.

Sul y Cofio Dewiswyd Llion Thomas o sesiwn y bore ac Owain Jones o sesiwn y prynhawn i gario torch o flodau a'i gosod ar y gof golofn yn y pentref yn ystod seremoni Sul y Cofio. Mae'n hynod bwysig fod plant ifanc y pentref yn cael profiad o'r fath er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth o'r byd.

Llongyfarchiadau i Ioan a Dafydd Bean ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch eleni. Enillodd Dafydd y tlws am yr ymgais orau yn yr Adran Gerdd i flwyddyn 6 ac iau a'r ymgais orau yn yr Adran Lefaru blwyddyn 6 ac iau.

Dymuniadau da am y Nadolig Gan na fyddaf yn anfon cardiau Nadolig eleni fe ddymuna Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd fendithiol i'w theulu, ffrindiau a chymdogion da. Diolch am bopeth.

Dymuna Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdoigon a ffrindiau am na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Ni fydd Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, yn anfon cardiau Nadolig eleni ond dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion, ffrindiau a'r gofalwyr. Diolch yn fawr iawn am yr holl garedigrwydd yn ystod y flwyddyn.

Dymuna Margaret, Siân, Nia a Mari, 6 Ffordd Deiniol, anfon Cyfarchion y Tymor Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i'w teulu, ffrindiau a chymdogion, gan na fyddant yn anfon cardiau eleni. Ond yn diolch i bawb am y cymorth y maent wedi ei gael yn ystod y flwyddyn anodd yma. Diolch o galon.

Dymuna Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, oherwydd ni fydd yn anfon cardiau eleni.

Diolch Dymuna Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ym mis Hydref. Hefyd dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn

Newydd Dda i bawb am na fydd yn gyrru cardiau eleni.

Diolch Dymuna Cissie Rowlands, Corlan-y-Bont, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, cymdogion a ffrindiau ymhell ac agos am eu caredigrwydd tra yn ysbyty Gwynedd ac Eryri, Caernarfon, a hefyd ar ôl dod gartref. Diolch o galon i chwi oll.

Cymdeithas Lenyddol Undebol Cyfarfu'r aelodau yn Nhŷ Elidir ar 28 Hydref o dan lywyddiaeth Mr John Llywelyn Williams. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni y Parch H.J. Hughes, Porthaethwy, a thestun ei sgwrs oedd 'Cychwyniad yr Ysgol Sul yng Nghymru'.

Yr Ysgol Sul gyntaf i'w sefydlu oedd yng Nghaerlŷr yn Lloegr, a'r gyntaf yng Nghymru oedd uwchben ystafell yn y Bala yn y ddeunawfed ganrif, gan neb llai na Thomas Charles.

Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mr Bryan Price.

Sul y Cofio Cafwyd gwasanaeth Sul y Cofio eleni ar fore Sul, Tachwedd 10fed, o flaen y Gofeb yn y pentref. Cymerwyd rhan gan y Parch John Pritchard a'r Cynghorydd Elfed Williams, ynghyd ag aelodau o Seindorf Deiniolen a gosodwyd torchau gan gynrychiolwyr mudiadau'r pentref. Hoffai pwyllgor Gŵyl Deiniolen ddiolch i bawb a gefnogodd y gwasanaeth ac a ddaeth i dalu eu teyrnged.

Noson Tân Gwylt Cynhaliwyd Noson Tân Gwylt lwyddiannus o dan ofal yr Ysgol Feithrin ar Dachwedd Sed. Diolch i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd tuag at wneud y noson yn hynod lwyddiannus.



Nadolig Llawen

A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ODDIWRTH BAWB YN Y GWESTY
DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH TRWY'R FLWYDDYN

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Ffôn- 01286-870253

sales@theroyalvictoria.co.uk

Priodasau

Dathliadau Achlysuron Arbennig

Cynadleddau Pwyllgorau

Bwydlen Bar

Cinio Dydd Sul

Ysgol Gwaun Gynfi



Plant Mewn Angen Dydd Gwener, Tachwedd 15ed, 2013 bu plant a staff yr ysgol yn gwisgo dillad nos i godi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Maent wedi codi £200 ar gyfer yr achos. Llongyfarchiadau i'r holl blant.

Diolchgarwch Derbyniwyd cerdyn gan Jennie Williams ar ran oedolion Bro Deiniolen yn diolch am y ffrwythau a llysiau a dderbyniwyd gan yr ysgol ar ôl gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol.

Cydymdeimlad Estynnwn
ein cydymdeimlad at Mrs
Eirlys Hughes, Porth Gogledd,
a'r teulu cyfan yn dilyn
marwolaeth ei merch, Mrs Ceri
Olwen Greenfield.

Ysgol Sul Undebol Bydd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn cael ei gynnal eleni ar Rhagfyr 15fed am 10 y bore.

Estynnir croeso i holl drigolion
y pentref i ddathlu gŵyl y geni
gyda phlant yr Ysgol Sul.

**Dathliadau Nadolig Gŵyl
Deiniolen 2013** Cynhelir
noson goleuo Stryd Fawr y
pentref eleni ar nos Sadwrn,
Tachwedd 30ain, am 6.00
gyda adloniant gan Seindorf
Deiniolen, Côr Cynfi a Lleisiau
Llanbabs. Bydd lluniaeth yn

Plant y Dosbarth Meithrin yn eu gwisgioedd nos.

Sul y Cofio – 10/11/13 Cafodd Tasha Croft ac Alan Williams eu dewis i gynrychioli'r ysgol i roi y torch pabi ar y gofgolofn ar ddydd Sul y Cofio.

Arolwg Estyn o'r ysgol Mae'r ysgol wedi derbyn arolwg da iawn gan Estyn. Cewch fwy o wybodaeth mis nesaf ar ôl i'r adroddiad terfynol ein cyrraedd.

cael ei ddarparu ar y noson.
Bydd groto Siôn Corn yn Nhŷ
Elidir ar Ragfyr 14eg gyda
Disgo Nadolig yn ogystal.

Ac yna, ar Rhagfyr 22ain bydd Siôn Corn ar daith o amgylch y pentref a'r ardal, yn cychwyn am 5.30.

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch

Bydd Cyfarfod Blynnyddol yr

Ŵyl yn cael ei gynnal ar yr 8fed
o Ionawr yn Nhŷ Elidir am
7.00 o'r gloch. Estynnir croeso
cynnes i unrhyw un fynychu.

Nadolig 2013 Estynnir
cyfarchion yr Ŵyl i holl
drigolion y pentref a darllenwyr
yr Eco, gan ddymuno Nadolig
Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda i chwi i gyd.

**Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Bda oddi wrth**

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM
Cwm-y-glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870682
Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y
PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

Nadolig Llawn a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng



NGHARTREF

Y Foelas

**Ffordd yr Orsaf
LLANRUG**

Ffôn: C'fon 674652

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD
DDA

Oddiwrth bawb yn

**LONDON
GARAGE**

Cwm-y-glo

MOT, Teiars, Gwasanaeth ac Atgyweirio

Ar agor 9-5 Llun-Gwener
9-1- Sadwrn






Ffôn- 870234

Eisteddfod Gwaun Gynfi

Canlyniadau Llwyfan Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r
Cylch 2013

Canu Ysgol Feithrin: 1af – Anian
Llefaru Ysgol Feithrin: 1af - Nedw
Canu Dosbarth Meithrin: 1af – Jessica; 2ail – Ella; 3ydd – Amilia
Llefaru Dosbarth Meithrin: 1af -Amilia; 2ail – Jessica; 3ydd – Ella
Canu Dosbarth Derbyn: 1af – Lois; 2ail- Tryfan; 3ydd- Deio
Llefaru Dosbarth Derbyn: 1af -Tryfan; 2ail – Deio; 3ydd – Hayley
Canu Blwyddyn 1 a 2: 1af – Sion; 2ail – Erin a Gwenno; 3ydd – Callum
Llefaru Blwyddyn 1a2: 1af –Sion; 2ail – Erin; 3ydd – Gwenno
Llefaru Blwyddyn 3 a 4: 1af - Dafydd Bean; 2ail – Ioan Bean
Canu Blwyddyn 3 a 4: 1af - Dafydd Bean; 2ail – Ioan Bean; 3ydd – Rhun Pleming
Llefaru Blwyddyn 5 a 6: 1af – Alis Jones
Unawd Pres dan 10 oed: 1af – Elin Dafydd
Deuawd Blwyddyn 6 ac Iau: 1af - Ioan a Dafydd Bean
Unawd Cerdd dant Blwyddyn 6 neu lai: 1af Dafydd Bean
Alaw Werin Blwyddyn 6 neu lai: 1af – Ioan Bean; 2ail – Elin Dafydd; 3ydd – Dafydd Bean
Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 neu lai: 1af – Elliw Owen; 2ail Erin Williams
Canu Emyrn Blwyddyn 6 neu lai: 1af – Dafydd Bean; 2ail – Elin Dafydd; 3ydd – Ioan Bean
Grŵp Offerynnol Blwyddyn 6 neu lai: 1af – Elliw ac Erin
Unawd Piano Blwyddyn 6 neu lai: 1af – Elliw Owen; 2ail – Alis Jones; 3ydd – Dafydd Bean
Parti Unsain: Lleisiau Llanbabs
Grŵp Dawnsio Disgo: Pic a mics – Gwenno / Alis / Tara

Enillydd Cadair yr Eisteddfod i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gwaun Gynfi am waith Llenyddol: Alis Jones
Enillydd tlws er cof am Mr Iwan Williams, Manceinion am yr ymgais orau yn yr adran Gerdd: Dafydd Bean
Enillydd tlws Ceris am yr ymgais orau yn yr adran Llefaru: Dafydd Bean
Enillydd tlws er cof am Mrs Nancy Edwina Jones am y perfformiad gorau i blant blwyddyn 2 ac iau: Tryfan Jones
Enillydd Cwpan er cof am y diweddar Mr WJ Eames am yr ymgais orau yn yr adran Adran Arlunio i blant blwyddyn 6 Ysgol Gwaun Gynfi: Alis Jones
Canlyniadau Cyfarfod y Nos
Unawd dan 16 oed: 1af – Cian Pleming
Llefaru dan 16 oed: 1af – Llio; 2ail Beca Jones
Unawd Pres dan 16 oed: 1af – Deian Williams; 2ail – Bethan Moulton
Unawd Offerynnol dan 16: 1af – Nanw; 2ail – Nel; 3ydd – Beca Jones a Cian Pleming
Grŵp Offerynnol dan 16: 1af – Deian ac Erin Williams
Unawd Cerdd Dant dan 16: 1af – Cian Pleming
Unawd Alaw Werin dan 16: 1af – Cian Pleming
Ysgoloriaeth yr Eisteddfod 16-25 oed: Gwenno Glyn Brown / Anna Wyn Jones / Caryl Angharad Roberts
Enillydd Cadair yr Eisteddfod: 1af – Dafydd Guto Ifan
Enillydd Medal Lenyddol dan 25oed: 1af – Gareth Evans Jones
Llefaru Agored: 1af – Caryl Angharad; 2ail – Anna Wyn Jones
Unawd Cerdd Dant Agored: 1af – Caryl Angharad
Unawd Piano Agored: 1af – Catrin Llewelyn Gruffudd; 2ail – Gwenno Glyn Brown
Darllen darn heb ei atalnodi: 1af – Glain Hughes; 2ail – Prys Hughes a Beca Jones; 3ydd – Elin Worth
Deuawd Agored: 1af – Eleri Bean a Lyndsey Pleming
Unawd Alaw Werin Agored: 1af – Caryl Angharad
Unawd Offerynnol Agored: 1af – Gwenno Glyn Brown; 2ail – Deian Williams
Unawd Agored: 1af - Caryl Angharad
Parti Alaw Werin: Côr Cynfi
Côr Agored: Côr Cynfi
Cyfansoddi Tŷn i Emyrn: Gwilym Lewis
Ysgrifennu Stori Fer: Ann Wyn Owen
Cwpan Bryn Du am yr ymgais orau adran Gwau a Gwnio: Mona Parry
Tlws Teulu Cae Main am yr ymgais orau adran Celf a Chrefft: Elin Worth
Cwpan Clwb Snwcer am yr ymgais orau adran Gwaith Coed: Glain Hughes
Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams am yr ymgais orau yn yr adran Gerdd blwyddyn 7/8/9: Deian Williams



Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda i
bawb oddi wrth

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996



- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

POSH PAWS

TACUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU



Cystadleuaeth Arlunio Dosbarth Meithrin
1af – Manon Jones, 2ail – Glesni Williams, 3ydd – Ben Bolton



Cystadleuaeth Arlunio Dosbarth Derbyn
1af – Fflur Morris-Williams, 2ail – Gwion John Jones, 3ydd – Lois Williams



Cystadleuaeth Arlunio Blwyddyn 3
1af – Sion Elidir Thomas, 2ail – Levi Fleming-Gower, 3ydd – Ceian Whitehouse



Cystadleuaeth Arlunio Blwyddyn 2
1af – Eiddon Morris-Williams, 3ydd – Abi Thomas, 2ail – Gwenno Parry



Cystadleuaeth Arlunio Blwyddyn 1
3ydd – Yasmin Griffith, 1af – Zara Jones, 2ail – Ffion Baston



Cystadleuaeth Arlunio Blwyddyn 6
3ydd – Alan Williams, 1af – Alis Jones, 2ail – Deian Parry



Cystadleuaeth Arlunio Blwyddyn 5
2ail – Ruby Williams, 1af – Ellen Roberts, 3ydd – Megan Owen



Cystadleuaeth Arlunio Blwyddyn 4
2ail – Dylan Thomas, 1af – Hannah Sinclair-Hughes, 3ydd – Owain Hanks

BOSCH Service
Car Service

AA MOT **ATC** **Shell** **www.a-v-w.co.uk**
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
BRYN AFON
ENGINEERING LTD
PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel
GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523



Cystadleuaeth Ysgrifennu Blwyddyn 5
1af – Megan Owen, 2ail- Neve Rooney, 3ydd – Rhian Haywood



Cystadleuaeth Ysgrifennu Blwyddyn 4
2ail – Iestyn Jones, 3ydd – Osian Hughes, 1af – Ioan Bean



Cystadleuaeth Arlunio Blwyddyn 1
3ydd – Yasmin Griffith, 1af – Zara Jones, 2ail – Ffion Baston



Cystadleuaeth Ysgrifennu Blwyddyn 2
2ail – Eiddon Morris-Williams, 1af – Gwion Thomas, 3ydd – Gwenno Parry



Unawd Piano – 1af - Elliw Owen



Dawnsio disgo – 1af - Alis Jones, Gwenno Williams, Tara Owen



Unawd Corn Dan 10 oed – 1af - Elin Dafydd Evans



Y Gadair – Alis Jones

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935



Cystadleuaeth Ysgrifennu Dosbarth Meithrin
1af - Glesni Williams, 3ydd – Ella Taylor, 2ail – Owain Lloyd Jones



Tlws Babanod – Tryfan Jones



Cystadleuaeth Ysgrifennu Blwyddyn 3
1af – Catrin Williams, 2ail – Sinead Roberts, 3ydd – Keiran Jones



Cystadleuaeth Ysgrifennu Blwyddyn 6
3ydd – Tara Owen, 1af – Alis Jones, 2ail – Gwion Gruffudd

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

• Yswiriant Cartref

• Yswiriant Teithio

• Larymau Personol

• Yswiriant Car

• Nwy a Thrydan

• Cynlluniau Angladdau

Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE Concern

Age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK a dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10

MP2430V2APR11 SL031616_11_1

MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage LLANBERIS

MOT • GWASANAETH CYNNAL A CHADW

NADOLIG LLAWEN

A Blwyddyn Newydd Dda

(01286) 870225

BWYD ANIFEILIAID

BOCM • PAULS

GWAIR GWELLT a HAYLAGE

ROBERTS

HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF

Ffôn 07748692100 • (01286) 660254

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partion, triphiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS

RHIWLAS

13

Gwasanaeth Naw Llith a Charol Undebol yn Eglwys Sant Padarn Llanberis, nos Fawrth Rhagfyr 17, am 7:30yh. Cymerir rhan gan aelodau'r eglwysi a chapeli lleol. Croeso cynnes i bawb.

Bore Coffi Nadoligaidd
Eglwys Sant Padarn, Llanberis
Bore Sadwrn, Rhagfyr 7fed am 10yb

Stondinau amrywiol yn cynnwys stondin nwyddau masnach deg, stondin flodau, stondin gacennau a llawer mwy!

Cyfle i weld y goeden Nadolig fwyaf yn yr ardal!

Cystadlaethau i bob oed gyda gwobrau ariannol i rai dan 18.

Eitemau i law erbyn 10.30yb

Beirnedir am 11.yb

Cost pob cais: 50

Mynediad (yn cynnwys paned a mins pei) £2 - Plant am ddim.

Beirniaid

Coginio: Miss Catrin Mair Roberts

(Seren y rhaglen deledu 'Come Dine With Me')

Celf, Crefft a Ffotograffiaeth: Mrs Ffion Huws a Mrs Susan Peters, (athrawesau lleol)

Limrig: Mrs Ann Parry-Jones

Cystadlaethau
Celf a Chrefft

Dan 5 - Llun dyn eira

Derbyn i Bl.2 - Llun Siôn Corn

Bl.3 i Bl.6 - Cerdyn Nadolig gyda golygfa'r geni arno

Bl.7 i Bl.13 - Addurn Nadolig (ar gyfer y bwrdd neu'r goeden)

Agored i bawb - Eitem Nadoligaidd wedi ei wau neu wnïo

Agored i bawb - Blodeued Nadolig

Coginio

Oed Cynradd - 6 bisged Nadoligaidd

Oed Uwchradd - 6 cacen gwpan Nadoligaidd

Merched - cacen ffrwyth

Dynion - taffi triog

Agored i bawb - cacen sbwng wedi ei haddurno'n Nadoligaidd

Agored i bawb - jar o unrhyw siytni

Agored i bawb - quiche

Ffotograffiaeth

Dan 18 - unrhyw olygfa aeafol o ardal Llanberis.

Oedolion - unrhyw olygfa aeafol chwarelyddol.

Limrig

Agored i bawb - 'Ar noson oer fel heno..'

Dathlu Priodas Dymuna Derek a Freda Jones, 62 Maes Padarn, ddiolch yn fawr i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch un ac oll!

Cymdeithas Undebol Llanberis Cafwyd noson ardderchog yng nghwmni Mrs Gwendolyn Jones, Llanrug, yn y cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas. Bu yn trafod achau ei mam, sef yr annwyl Mrs Dilys Baylis Llanberis, ac fel bu ei mam, yn ferch ifanc, fynd i nyrsio yn Llundain gyda'r "Bernados". Llywyddwyd y noson gan Dilys Mai Roberts a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr Colin Jones.

Bydd cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas yn Capel Coch am 7yh ar nos Fawrth y 10fed o Ragfyr. Bydd yno Wasanaeth Nadoligaidd a fydd yn agored i bawb. Llywydd y noson fydd y Parchedig John Pritchard a chawn ddarllenadau, carolau cynulleidfaoel ac eitemau gan Gôr Ffrindiau Bytholwyrdd, dan arweiniad Mrs Matti Hughes. Cewch baned a mins peis ar y diwedd ac mae croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad at achos da.

Ffair Nadolig Capel Coch Cynhelir Ffair Nadolig Capel Coch ar ddydd Mercher y 4ydd o Ragfyr am 2.30yp. Bydd pob math o stondinau a bargeinion lu! Pris mynediad £1, yn cynnwys paned a bisged. Croeso cynnes i bawb.

Cyfarchion Nadolig Gan na fydd yn anfon cardiau eleni, dymuna Louie Pritchard, Dôl

Eilian, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb a diolch arbennig am y cymorth a dderbyniodd drwy'r flwyddyn gan ei theulu, ffrindiau a chymdogion.

Côr Meibion Dyffryn Peris Fel pob blwyddyn, mae hwn yn amser prysur iawn i'r Côr. Ar nos Lun, Tachwedd 11eg, roeddynt yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis yn diddori'r WL. Nos Sul, Rhagfyr yr 8fed, byddant yn Llanrwst a phrynhawn Sul, 15fed o Ragfyr, byddant yn cymeryd rhan yn y Cyngerdd Blynnyddol yn Y Mynydd Gwefru. Yn ogystal, maent eisiau ymweld â chartrefi preswyl lleol cyn y Nadolig.

Mae cyfeilydd newydd, Stephen Evans, wedi ymuno â'r Côr ac wedi ymgartrefu'n sydyn iawn.

Dymuniadau Nadolig Dymuna Trefor a Heulwen Edwards, Stryd Fawr, Llanberis, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion, gan na fyddant yn anfon cardiau eleni.

Dymuna Anne a Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch o galon i bawb am bob cymorth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Mae Margaret Griffiths, 7 Llainwen Isaf, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda trwy gyfrwng yr Eco i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Odyn
Copr

Parc
Padarn

Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda

Ffon-871366

CELF Y
COPÄON
MOUNTAIN ART
STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:

www.mountainart.co.uk

e-bost:

ginger@mountainart.co.uk

★ Am luniau mynyddoedd

★ Peintiadau

★ Printiadau



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i Bawb

FFERM FÊL YR WYDDEA

NADOLIG
LLAWEN

A BLWYDDYN
NEWYDD DDA

SNOWDON HONEY
FARM

STRYD FAWR LLANBERIS

Ffon- 870218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

GWIN
A MEDD



“Cerrig Mewn Waliau yn cofnodi beth?”

Os gwelwch gerddwyr yn sefyllian ac yn syllu ar waliau'r fro o dro i dro – peidiwch a phoeni, does dim angen i chi ffonio am feddyg. Mae pwrpas i'r arferiad ac mae'r rheswm yn tarddu o'r Deddfau Cau Tiroedd Comin yn ystod y 1810au.

Bryd hynny, y codwyd y rhan fwyaf o'r waliau cerrig a welwn o amgylch ein tirwedd heddiw. Y rheol fwy neu lai yw – os ydi'r wal yn syth, yna wal o gyfnod y Ddeddf Cau Tiroedd ydyw (mae waliau sydd yn amgylchynu caeau crwn yn hynach ac nid oes llawer ohonynt). Ary cyfan, tiroedd y comin agored oedd yn rheoli cyn hynny ond fe newidiodd y Ddeddf wir natur ac edrychiad ein cefn gwlad. O fewn dim, codwyd cannoedd a channoedd o filltiroedd o waliau cerrig o amgylch bro'r Eco yn unig. Syndod yw meddwl am hynny. Ond o ble daeth y cerrig? Wel, ar y cyfan, codwyd hwy o bridd y caeau oedd yn cael eu cau. Ond o dro i dro, mae'n amlwg fod cerrig o rhyw hen adeilad neu adeiladwaith col wedi eu defnyddio. Meddyliwch am y peth - er enghraifft, tybed i ble'r aeth y cannoedd a'r filoedd o cerrig 'flagstones' yr hen lon Rufeinig oedd yn mynd heibio Bethel a Llanddeiniolen?

Wel, dyma ddwy enghraifft o gerrig waliau sydd a stori o'u hamgylch. Mae'r gyntaf mewn wal ger Tyddyn Alys gyferbyn a Chastell Bryn Bras. Mae'r garreg ei hun i weld fel pe bai wedi bod yn rhan o giat cae ar un adeg. Ond gan ei bod wedi ei lleoli ar ochr y lon sydd yn mynd am y Clegyr, a hithau yn lon hynod o hen, tybed os ydyw'n enghraifft o hen garreg filltir, neu garreg sydd yn dynodi perchnogaeth darn o dir?

Trwy chwarae triciau gyda'r camera mae modd dechrau darllen dwy lythyren wedi eu cerfio arni – sef 'P' neu 'RW', a hynny o dan linell o rhyw fath. Mwy na thebyg fod y garreg wedi ei symud rhywbryd yn y gorffennol pell... ond at bwy neu at beth mae'r llythyrennau yn cyfeirio? Unrhyw syniadau?

Mae yna garreg arall wedi tynnu ein sylw ar ein teithiau, ond y tro hwn mae dyddiad wedi ei gerfio arni, sef 1903. Mae i'w gweld ar Lon Garret o Ddinorwig i'r chwarel. Tybed beth yw arwyddocad y symbolau? Os ydych yn gwybod, neu yn gweld rhyw enghraifft arall o rhywbeth anghyffredin yn ein waliau, gadewch i ni wybod.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Darlun – Nadoligy Stabl

Yn dawel gorweddai y fam ar y gwair
Mewn trwmgwsg yr hunai anwylyd bach Mair,
Gerllaw safai Joseff gan edrych yn fud
Ar wyneb sancteiddiol Gwaredwr y Byd

Bugeiliaid a glywsant yn nyfnder y nos
Angylion mewn anthem yn gwlitho'r rhos;
I'r stabl yr aethant, a llawn oedd eu bryd
Gan syllu ar wyneb Gwaredwr y Byd

Yn dilyn y seren a wenai o'r ne'
Y Doethion a ddaethant i Fethlehem dre';
Ac yno ar aelwyd na feddai'r un crud -
Plygasant gan barchu Gwaredwr y Byd.

A chysgod y Groesbren a gaed ar y mur
Arwydd gan Herod o ddicter a chur;
Syrthiodd ei threm yn drwm ar ei bryd
Gan greithio anwyldeb Gwaredwr y Byd

Awn ninnau yn fintai hyderus a llon
A chariad yn curo yn gryf tan bob bron
I syllu a thystio mai'r un yw o hyd
Rhinweddau tragwyddol Gwaredwr ein Byd.

John H. Hughes



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Beth sydd mewn enw? Mae angen eich cymorth ar Haneswyr ac Ieithyddion!

Yn ystod mis Hydref cafodd gwefan newydd ei lansio a fydd yn manteisio ar wybodaeth gwirfoddolwyr i gofnodi holl enwau lleoedd Cymru fel yr oeddent yn ymddangos ar Fapiau Ordans ar ddiwedd y cyfnod Fictoraidd.

Mae Cymru1900Wales.org yn brosiect cydweithredol sy'n torri tir newydd. Fe'i datblygwyd ar y cyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgol Cymru a Chasgliad y Werin Cymru.

Ar wefan cymru1900wales.org gofynnir i chi astudio mapiau hanesyddol Cymru, a gyhoeddwyd gan yr Arolwg Ordans rhwng 1899 a 1908, a chofnodi lleoliad yr holl destun a ddangosir ar y mapiau; enwau trefi, pentrefi, coedydd, ffermydd, afonydd, nentydd, plastai - popeth! Mae hyd yn oed elfen gystadleuol i'r broses hon fydd yn siŵr o gael gafael ynoch; po fwyaf o enwau lleoedd a gofnodir gan wirfoddolwr, yr uchaf fydd eu safle yn y Siart Cyfranwyr.

Meddai Dr. David Parsons, Uwch Gymrawd Prosiect Enwau Lleoedd ym Mhrifysgol Cymru:

“Rydym yn gobeithio defnyddio gwybodaeth gwirfoddolwyr ar-lein i gael ffurfiau hanesyddol enwau lleoedd, a chael gwybod hefyd am amrywiadau modern neu enwau eraill sy'n cael eu defnyddio'n lleol. Nid oes meddalwedd sy'n gallu casglu'r wybodaeth hon yn awtomatig, felly mae gwir angen i bobl fynd ar-lein, cofrestru a'n helpu.”

Ychwanegodd Tom Pert, Rheolwr Datblygu Ar-lein yng Nghomisiwn Brenhinol Henebion Cymru: “Mae hwn yn gyfle gwych i ni gasglu llawer iawn o wybodaeth yn gyflym iawn. Trwy'r broses hon bydd lleoliad pob melin, carreg filltir, efail a doc yn cael eu cofnodi a'u defnyddio i hybu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Bydd pob gwirfoddolwr yn ein helpu i gwblhau cofnod cyflawn o dirwedd ddiwylliannol Cymru ar ddiwedd y cyfnod Fictoraidd.”


Meddai'r Athro Lorna Hughes, Cadair Casgliadau Digidol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru:

“Mae'r wefan hon yn torri tir newydd, ac mae Cymru'n arwain y ffordd i weddill y Deyrnas Unedig. Mae prosiectau cymorth torfol o'r math hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer seryddwyr neu fiolegwyr. Rydym yn sicr y bydd y prosiect hwn yr un mor llwyddiannus, ac yn paratoi'r ffordd i ymchwil pellach a wneir ar y cyd ynghyd â phrosiectau gwirfoddoli ar-lein yn y dyfodol”.


Gwybodaeth Bellach:

Elin-Hâf post@llgc.org.uk neu (01970) 632471

Gwefan: www.cymru1900wales.org



MILWYR O'R FRO YN Y RHYFEL BYD CYNTAF



Roedd yn ddiddorol ond trist darllen yn rhifynnau Hydref a Thachwedd o'r Eco am y milwyr a gollwyd yn y Rhyfel Mawr. Mae'r trafod a'r cofio yn dod yn fwy amserol wrth i'r cyfnod coffau gael ei gynllunio, gyda llu o ddigwyddiadau ar hyd ac ar led Cymru, Ewrop a'r byd.

Mae'n arwyddocaol felly fod criw bychan o feicwyr yn enw “Beicio Hedd Wyn” wedi beicio yr holl ffordd o Fangor i Langemark yn Fflandrys ym mis Medi 2013, pellter o 630 milltir. Bwriad y daith, a drefnwyd gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru oedd codi arian i gael cofeb deilwng i'r Cymry a laddwyd yn Fflandrys. Mae cofebau eraill ar gyfer y cenhedloedd eraill, ond nid oes un i'r Cymry-eto! Y gobaith yw dadorchuddio Draig Goch (o fetel) wedi ei gosod yn bwrpasol ar gromlech, a hynny yn Awst 2014 yn agos i Ieper (Ypres).

Un o'r beicwyr a fentrodd yr holl ffordd oedd Meurig Rees o Ddyffryn Conwy, fy mrawd yng nghyfraith. Bu Meurig yn ddigon caredig i dynnu llun bedd Owen Evans (1893-1916) ym mynwent Artillery Wood. Yma y claddwyd Hedd Wyn hefyd. Roedd Owen Evans yn hen ewythr i mi, ac yn frawd i'm taid, John Henry Evans, neu Jac Ewrop i drigolion Deiniolen a'r cylch.

Mae enw Owen Evans ar fedd ei fam a'i dad ym mynwent Macpelah, Deiniolen. Yn ôl cyfrifiad 1911 yr oedd Owen yn byw yn yr “Old Prince of Wales” yn Neiniolen. Ar gofeb y pentref nodir ei gyfeiriad fel Tan Y Garret (Lôn Sardis, Dinorwig), tra ar gofeb un o'r capeli sydd ger adwy y fynwent roedd yn byw yn “Tabernacle Street”.

Bu farw Owen ar Ragfyr 23, 1916, “killed in action” yn Belgium mae'n debyg. Nid oes mwy o fanylion amdano. Cymro arall wedi ei ladd, ac aelod arall o'r “Royal Welsh Fusiliers”.

John Alan Roberts, Penygroes.



Canmlwyddiant Coleg Madryn



Rhes ôl (o'r chwith):

Medwyn Williams, Nefyn; T.Rees Roberts, Cricieth; Ieuan W. Owen, Pentir, Bangor; O. J. Jones, Efailnewydd; J.P.Owen, Tudweiliog; Evan Hughes, Pontllyfni; Eirlys Jones, Efailnewydd; Rhian Owen, Efailnewydd; Cyril Jones, Mynytho; Ieuan O. Jones, Garndolbenmaen; Ellis Jones, Llaniestyn.

Yn eistedd (o'r chwith):

Ellis Glyn Roberts, Rhydyclafdy; George Williams, Bontnewydd; W.O Griffith, Llangian; Aled Griffith, Amwythig; Evan Williams, Abererch; Ellen G. Jones, Cricieth

Ym mis Hydref daeth dros gant o gyn-fyfyrwyr Madryn a Glynllifon ynghyd i ddathlu can mlynedd o addysg amaethyddol. Agorwyd drysau Madryn, sef y coleg amaethyddol cyntaf yng Nghymru, ym Medi 1913 cyn symud i Llynllifon yn 1952. Ar ôl cinio yng ngwesty Nanhoron, Nefyn bu John Dilwyn Williams yn cyflwyno hanes Coleg Madryn a dangos lluniau o'r blynyddoedd cynnar hynny. Roedd yn braf gweld 17 o gyn-fyfyrwyr Madryn yno ac roedd hen sgwrsio a hel atgofion yn mynd ymlaen ac hefyd roedd arddangosfa eang o luniau a phawb yn mwynhau chwilio am eu blwyddyn hwy.

Nofel dditectif newydd.

Lansiodd yr awdur ffraeth o Fethel, Euron Griffith, ei ail nofel i oedolion ddiweddd Tachwedd. Mae Leni Tiwdor (y Lolfa) yn addo cyfuniad o'r lleddf a'r llon wrth i ddarllenwyr ddilyn treialon ditectif preifat sy'n wynebu pob math o beryglon wrth iddo geisio datrys ei achos diweddaraf.

"Dwi'n meddwl ei bod hi'n deg dweud fod prif gymeriad y nofel, Leni Tiwdor, yn teimlo ar goll," eglura Euron, sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio fel awdur ar ei liwt ei hun "I gychwyn, rhes o achosion eithaf dibwys sy'n cael eu cynnig iddo gan y cyhoedd, fel beic neu gath goll. Ond yn fuan iawn fe arweinir Leni at achos sylweddol ei faint, a dyna yw hanfod y nofel. I ryw raddau, dwi'n credu fod ditectif yn symbol ohonom ni i gyd. Swydd ditectif yw ceisio gwneud synnwyr o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno iddo, yng nghanol holl annibendod a dirgelion bywyd. Ac rwy'n credu fod pawb yn chwilio am atebion."

Eglura'r awdur mai 'adfer' yw un o brif themâu Leni Tiwdor. Mae 2013 wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol iawn i'r awdur, ac yntau newydd gyhoeddi nofel i bobl ifanc o'r enw Eilian a'r Eryr (Cyfres Mellt, y Lolfa). Cyfaddefa'r awdur fod ysgrifennu ei ail nofel i oedolion wedi profi'n fwy o her nac ysgrifennu i'r arddegau.

Mae Euron yn gyflwynydd, cynhyrchydd ac ymchwilydd rhaglenni teledu a radio. Cyhoeddwyd cerddi ganddo yng nghylchgronau Ambit a Poetry Wales a bu ei waith celf yn rhan o arddangosfa yn y Walker Gallery yn Lerpwl



LLYWODRAETH LLUNDAIN YN ANWYBYDDU TYMHEREDD OER PERYGLUS LLEOL

Mae Aelod Seneddol Plaid Cymru Arfon, Hywel Williams AS wedi galw am arolwg brys o'r hyn sy'n ysgogi Taliadau Tywydd y Llywodraeth. Mae diffyg sylfaenol yn y cynllun yn peryglu y rheiny sydd wir angen cymorth yn Arfon rhag cael mynediad i'r taliad yn ystod y gaeaf.

Mae taliad awtomatig o £25 yn cael ei wneud i unigolion bregus pan mae tymheredd yn gostwng yn is na 0OC am gyfnod o saith niwrnod. Ond, mae Mr Williams wedi darganfod diffyg difrifol. Mae mesuriadau tymheredd ardal fynyddig Arfon yn cael eu casglu ar arfordir Ynys Môn!

Dyweddodd Mr Williams,

"Mae'r penderfyniad i dalu taliadau tywydd oer yn Arfon wedi ei selio yn unig ar fesuriadau tymheredd sy'n cael eu cofnodi ugain milltir i ffwrdd ar Ynys Môn.

Mae'n anghywir penderfynu ar daliadau tywydd oer yn fy etholaeth i ar sail data sydd wedi ei gasglu filltiroedd i ffwrdd, lle mae'r tymheredd yn gyffredinol gynhesach.

Mae daearyddiaeth y ddwy ardal yn dra gwahanol gyda amrywiaethau sylweddol yn y tymheredd.

Ar hyn o bryd, os yw'r tymheredd yng Nghanolfan Dywydd Ynys Môn yn uwch na 0OC, yna mae'r cynllun yn cymryd yn ganiataol bod y tymheredd yn ardal Arfon fynyddig yr un peth. Mae'r rhai ohonom sy'n byw a gweithio yn Arfon yn ymwybodol nad yw hyn yn wir.

Bydd y bobl hynny sydd wir angen cymorth i gadw'n gynnes y gaeaf yma, sef pobl hŷn a phobl sydd ag anableddau, yn colli allan ar yr arian ychwanegol."

Mae ffigyrau gan Age Concern yn dangos bod hyd at 24,000 yn fwy o bobl mewn perygl o farw y gaeaf yma o ganlyniad i effaith y tywydd oer, gyda nifer helaeth o bobl hŷn yn poeni am y cynydd yn y gôst o wresogi eu tai. Yn ôl yr elusen, mae eu hymchwyl yn dangos bod llawer yn anymwybodol o ganlyniadau anguol posib o fyw mewn cartrefi sydd heb eu gwresogi'n ddigonol. Roedd bron i un ymhob pedwar o bobl (22 y cant) a gymerodd ran yn yr arolwg ddim yn ymwybodol o'r peryglon i iechyd sy'n cael eu gwaethygu oherwydd y tywydd oer.

Ychwanegodd Mr Williams,

"Mae hyn yn esiampl o loteri côd post annheg iawn. Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau edrych eto ar frys ar sut mae'r cynllun yma yn cael ei weithredu, cyn i ni wynebu gaeaf arall o farwolaethau diangen yn sgil cynllun sydd wedi ei gam-reoli. Gyda elusenu yn galw am fwy o gymorth i bobl hŷn y gaeaf yma, dylai'r Llywodraeth roi ystyriaeth frys i'r problem.

Rwyf wedi cyflwyno Cwestiynau Seneddol ac yn aros am ymateb a fydd, rwy'n gobeithio, rhoi goleuni ar pham bod y system yn gweithredu fel yma fel bod modd cymryd camau i ymgymryd â'r diffygion."



Ysgol Brynrefail



Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2013

Wedi hoe fechan am flwyddyn dychwelodd eisteddfod yr ysgol i'r calendr - a hynny gydag arddeliad. Trwy gydol misoedd Medi a Hydref roedd yr ysgol yn un pair o brysurdeb gyda'r chweched dosbarth yn arwain y tai yn yr ymarferion ar gyfer yr wythnos fawr. Roedd bob cornel o'r ysgol yn cael ei melynau gan Eilian, ei chochi gan Eryri, ei gwyrddio gan Elidir a'i glasu gan Wyrfai. Erbyn yr ugeinfed o Hydref roedd pawb yn barod am yr wythnos gyffrous oedd o'u blaenau. Cafwyd rhagbrofion, gwrandawiaid, cystadlaethau Llythrennedd, Rhif a TCh ymhob adran ar draws yr ysgol, a choronwyd y cyfan gan y bwrlwm aruthrol ar ddiwrnod yr eisteddfod ei hun - Ddydd Iau, Hydref 24ain.

Y beirniaid eleni oedd Delyth Vaughan a chyn-ddisgybl,

Jenni Lyn Morris, ac o un ar ddeg o'r gloch y bore, hyd hanner awr wedi un ar ddeg yr hwyr, cafwyd gwledd o gystadlu, a hynny oll yng ngwir ysbryd eisteddfota. Daeth llwyddiant i'r pedwar ty - mewn cystadlaethau amrywiol megis parti bechgyn, parti llefaru, dawnio disgo, parti merched, côr, ensemble, ymgom, cân ysgafn, yn ogystal â lluo o gystadlaethau unigol. Ac ar ddiwedd yr ornest, Eilian a orfu - o drwch blewyn!

Y mae dyled yr ysgol i fyfyrwyr y chweched dosbarth yn aruthrol. Heb eu parodrwydd i arwain yr holl ymarferion a pharatoi cyflwyniadau a chyfleoedd fydd yn aros gyda'r disgyblion weddill eu hoes, ni fyddai'r eisteddfod unigryw hon yn cyrraedd y safon arbennig a wna. Y maent eisoes yn trafod cynlluniau Eisteddfod 2014!



Acſio



Magi Tudur

Y Tŷ Buddugol - Eilian

Capteiniaid - Lois Pennant Jones a Huw Owen.

Ynyr Pritchard - Mwyaf o farciau ar y llwyfan - blynnyddoedd 7, 8 a 9.

Enillwyr Tlwsau Adrannol - Mabon Pritchard, Macsen Llwyd, Tomos Parry, Thomas Hughes.

Mared Ynyr, Gwyrfai - Enillydd y Gadair

Magi Tudur - Enillydd Tlws y llenor Ifanc

Rhun Williams - Tlws Emma Bernard am y Perfformiad Actio gorau.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Dawns ddisgo

TLYSAU'R EISTEDDFOD 2013

Tlws mwyaf o farciau o'r llwyfan Bl. 10-13 - Gwern Brookes (Gwryfai) a Math Roberts (Eryri)

Tlws mwyaf o farciau o'r llwyfan Bl. 7-9 - Leisa Gwenllian (Eilian)

Tlws mwyaf o farciau ymlaen llaw (Unigol) - Ynyr Pritchard (Eilian)

Tlws Emma Bernard (adroddiad unigol gorau o'r llwyfan) - Rhun Williams (Elidir)

Cwpan Offerynnol - Math Roberts (Eryri)

Tlws i'r ty hefo'r mwyaf o farciau offerynnol - Gwryfai ac Eilian

Tlws marciau o flaen llaw - Elidir

Cwpan Parti Bechgyn - Elidir

Cwpan John Parry (parti adrodd) - Eilian

Cwpan Parti Ffrangeg - Elidir

Cwpan Sgets - Elidir

Cwpan Cân Ysgafn - Eilian

Cwpan Dawnsio Disgo - Elidir

Cwpan Parti Merched - Eryri

Cwpan Mrs Welch (Côr Deulais) - Eilian

Cwpan y Ty Buddugol - Eilian



Math a Gwern



Ni fu'n bosibl atgynhyrchu rhai o luniau Ysgol Brynrefail y mis hwn. Ymddiheurwn am nad oes llun o seremoni cadeirio Eisteddfod yr ysgol.

CYNGERDD NADOLIG
YSGOL BRYNREFAIL

Nos Lun, 16 Rhagfyr 2013
yn Neuadd yr Ysgol

Noson i gychwyn am 7.30pm
(Drysau yn agor am 7.00pm)

Tocynnau
Oedolion : £5 Pensiynwyr/Plant Dan 16 : £3

Tocynnau ar gael o
Swyddfa Ysgol Brynrefail, Llanrug
(01286) 672 381



Pudsey yn y cylch



Cylch Ti a fi



Pêl Bonws Enillwyr Pêl Bonws y Cylch yw: Hydref 19eg – Eryl Roberts; Hydref 26ain – Sue Jones; Tachwedd 2il – Maccsen a Nanw Llwyd; Tachwedd 9fed – Cylch Meithrin; Tachwedd 16 – Gwenno Mai Owen.

Cynulleidfa teledu Bu criw o rieni a staff y cylch yn gwylio rhaglen deledu Gwêfreiddiol yn cael ei recordio yn stiwdio Rondo, Nos Fercher, Tachwedd 13. Cafwyd noson hwyliog iawn a chasglwyd arian i'r Cylch

Plant Mewn Angen Cafwyd llawer o hwyl yn y Cylch fore Gwener, Tachwedd 15ed, gyda'r plant yn gwisgo eu pyjamas a chasglu arian i Blant Mewn Angen.

Band Llanrug

Rhestr o weithgareddau'r band cyn y Nadolig

Rhagfyr 5ed	Ffair Nadolig Ysgol Gynradd Llanrug
Rhagfyr 6ed	Cyngerdd Nadolig y Band yn Ysgol Brynrefail am 7.00 yr hwyr
Rhagfyr 16eg	Noson mins peis a charolau yn Ysgol Gynradd Llanrug
Rhagfyr 17eg	Chwarae carolau o amgylch Llanrug
Rhagfyr 19eg	Carolau yng Nghaeathro
Rhagfyr 21/22/23	Chwarae yn Morrisons, Caernarfon
Rhagfyr 22ain	Ras Hwyl yn y Clwb Rygbi, Caernarfon.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Dave, Bobbie a staff y

GLYNTWROG LLANRUG
671191

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Cist Gymunedol

Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhian.dobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

sporthales chwaraeon
www.gwynedd.gov.uk

Nadolig Llawn a diolch am eich cefnogaeth

oddi wrth **Alwyn a Sarah**

Blodau Racca
Penisarwaun Ffôn: 870605

Rithoedd Celyn,
Coed Nadolig, 'Crem Pots' a Rithoedd Drws.

Basgedi Planhigion,
Trefniadau blodau Silc.

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Ysgol Gynradd Llanrug



Blwyddyn 5 a 6 Bu Gari Lewis (saer coed) yn gweithio hefo plant Blwyddyn 5 a 6 yn gwneud addurn wedi ei blethu o wiail. Cafodd y plant fwynhad yn creu'r addurn diddorol. Roedd yn Ddiwrnod Plant Mewn Angen, dydd Gwener, Tachwedd 15 ac roedd pawb yn lliwgar yn eu gwisgoedd ffansi. Codwyd £402.00 ac roedd yr elw'n cael ei rannu rhwng Plant Mewn Angen a Thrychineb y Philipinau. Danfonwyd 62 o focsys 'Operation Christmas Child'. Llysgenhadon Chwaraeon Efydd yr ysgol yw Enlli Jones a Guto Whiteside Thomas.

Blwyddyn Meithrin a Derbyn P.C. Meirion wedi ymweld â'r plant i drafod sut i gadw'n saff.

Blwyddyn 1 a 2 Daeth Mair Jones, ymwelydd iechyd atom i sgwrsio am ei gwaith fel rhan o'n thema 'Y Corff'. Daeth â'i hŵyr bach, Owain Huw, efo hi er mwyn sôn am gylch bywyd. Diolch yn fawr i chi Mair am rhoi eich amser. Diolch hefyd i Iola Non Parry am ddod atom i sgwrsio am ddannedd. Gwirionodd pawb efo Huw y ci a diolch i chi am ddangos sut i edrych ar ôl ein dannedd. Cafodd pawb frwsh a phast dannedd i fynd adref. Diolch i enethod Blwyddyn 2 am ddawnsio'r ddawns flodau mor dda yn seremoniau Cadeirio llenorion Eisteddfod Ysgol Brynrefail ac Eisteddfod Bentref Llanrug.

Blwyddyn 4 Dydd Sadwrn, 16 o Dachwedd, cynhaliwyd Gala Nofio yr Urdd ym mhwl nofio Bangor. Aeth tîm o nofwyr o'r ysgol yno gan nofio yn eithriadol o dda. Da iawn i bob un ohonynt. Llongyfarchiadau i Kaitlin Forrest am ddod yn drydydd drwy Gymru mewn cystadleuaeth dringo.

Gwasanaeth Sul y Cofio yn Ysgol Gynradd Llanrug Daeth nifer o blant i'r ysgol gyda hen arteffactau a nodiadau yn cofnodi colledion teuluol yn y ddau ryfel byd. Un eitem ddiddorol eleni gan Enlli Lloyd Jones oedd medal Robert Williams a chofnodion hanes hen daid 'Bob' gael ei ladd yn y rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yn brofiad arbennig i'r plant wrth i mi ddarllen y llythyr yn cofnodi marwolaeth Robert Jones. Cawsom wybod mwy o hanes Robert Jones drwy fynd yn fanwl drwy nodiadau brawd Bob, sef Cledwyn Williams, cyn Brifathro Ysgol Gynradd Llanrug.

AM BETROL, DIESEL, OLEW ac

AMRYFAL ANRHEGION MODURO

PAPURAU NEWYDD A

PAYPOINT

GORSAF BETROL

LONDON GARAGE

CWM- Y- GLO

NADOLIG LLAWEN

A BLWYDDYN DDA I BAWB

Ffôn-Llanberis 872046

Capel y Rhos Oedfaon mis Rhagfyr

Rhagfyr 1 - Gweinidog Y Parch Marcus W. Robinson

Rhagfyr 8 - Mr. John Hugh Hughes

Rhagfyr 15 - Gwasanaeth Nadolig gyda'r gweinidog

Rhagfyr 22 - Y Parch Dafydd Lloyd Hughes

Rhagfyr 29 - Cyfarfod Gweddi

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD

o waith yn y

GWASANAETH

IECHYD

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:

i sefydlu menter

i gynnal gweithdai

i geisio am arian

i redeg mudiad

i wirfoddoli

cysylltwch â

Mantell Gwynedd

DANCILL GWYNEDD

The smallest groups get the most support

Supporting voluntary and community groups

ERDF

Uwchdref Cymru

Welsh Government

Europe & Cymru: Buddsoddi yn eiddoedd

Europe & Wales: Investing in your future

European Regional Development Fund

wcva

Welsh Community Voluntary Association

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

21

Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo Braf oedd gweld criw bach o'r Cylch ar lwyfan mawr Ysgol Brynrefail yn yr Eisteddfod Nos Wener, Tachwedd 15ed. Da iawn chi blantos!

Merched y Wawr Nos Fawrth, Tachwedd 10fed, croesawyd nifer dda o aelodau gan yr Is-lywydd, Menna. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nan, Linda, Ann, Carys a Mair. Cynhelir Bowlio Deg ar Ionawr 17, enwau rhag blaen i Olwen a Linda os gwelwch yn dda. Penderfynwyd cyfrannu at Eisteddfod Llanrug, gan ddymuno'r gorau i'r cystadleuwyr ar Dachwedd 15fed.

Llongyferchir Linda a Bryn ar ddod yn nain a thaid i Owï, mab bychan Luned a Ceri. Llongyferchir Lowri ac Ian Kier a'r teulu oll ar enedigaeth eu mab bychan hwythau, sef Luca. Dymunwyd pen-blwydd hapus arbennig i Gwenda.

Y wraig wadd oedd Mandy Watkin o'r Fali a raddiodd ym Mhrifysgol Bangor mewn Busnes a Seicoleg. Ond, wedi cyfnod o fagu tri o blant a chyda chymorth ei mam, mae newydd agor siop ym

Mhorthaethwy. 'Space like this', siop sy'n gwerthu celfi i'r cartref a rhoddion o bob math. Mae wedi ymddangos ar y rhaglen Prynhawn Da ac mae ei gwaith wedi ymddangos yn y cylchgrawn Saesneg poblogaidd 'Ideal Home'. Mae'n cynnig cynghorion ar sut i addurno tai a chartrefi'r henoed a gellir siopa ar-lein hefyd. Cynhelir noson agoriadol y siop ar Ragfyr 7fed a dymunir pob lwc iddi gyda'r fenter.

Diolchwyd iddi am noson hynod ddifyr a chartrefol gan Menna a dymunir pob gefnogaeth iddi gyda'i siop yn Water Street, Porthaethwy.

Diolchir i genod Penisarwaun am ofalu am y baned ac enillydd y raffl oedd Julie. Bydd arian y raffl ym mynd tuag at gronfa'r drychineb yn y Philipinau. Edrychir ymlaen at gyfarfod pawb yng Ngwesty'r Black Boy, Caernarfon ar Ragfyr 10fed erbyn 7 o'r gloch.

Babis **Newydd** Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar enedigaeth eu babis bach:

Luned (Pant Mwyn) a Ceri ar enedigaeth Owen (Owï) yng Nghaerdydd – braf iawn Hefin a Linda, Taid a Nain eto!

Nia a Colin, Sŵn yr Engan, ar enedigaeth Owï, brawd bach i Mali ac ŵyr i Jude a Harry a Nerys a John.

Lowri a Yankier Perez, Cartref, Ffordd yr Orsaf, ar enedigaeth eu mab hwythau, Luca. Llongyfarchiadau Siân, ar ddod yn Nain eto.

Diolchiadau Fe ddymuna Rhydwen Pugh, Caryl, Jacqueline, Carys, Alyn a Gwenlli a'r teulu i gyd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth annisgwyl. Diolch mawr i'r ffrindiau a chydweithwyr Eddie am eu cefnogaeth, i'r teulu a chymdogion, i'r Gweinidog a'r Ymgymrwyr am eu gofal a'u gwasanaeth trylwyr.

Profedigaeth Yn dilyn gwaeledd hir, bu farw Bryn Davies, mab Mrs Katie Davies, 5 Hafan Elan, yn 61 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu oll, ei fam, Meirion ei frawd a Gwawr ei chwaer, ac yn arbennig, Barbara ei wraig, Ffion ei ferch a Mia Môn, ei wyres fach.

Roedd y capel a'r fynwent yn llawn ddiwrnod yr angladd yn dyst o'i boblogrwydd a'r golled a deimlir ar ei ôl.

Diolchiadau Fe ddymuna Katie Davies, 5 Hafan Elan, a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad ar ôl colli Bryn yn dilyn brwydr ddewr.

Gwerthfawrogwn yr holl roddion, cardiau ac ymweliadau yn fawr iawn.

Hoffant ddiolch i'r Parch Marcus Robinson am ei wasanaeth urddasol ac i Gôr Meibion Caernarfon lle bu Bryn yn aelod am flynyddoedd. Diolch i E.W. Pritchard, Llanberis, am eu gwasanaeth trylwyr a charedig.

Dyweddio Llongyfarchiadau mawr i Gwennan Humphries o Dan y Coed ac Aled o'r Waunfawr ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Priodas Pob dymuniad da i Martin a Stephanie ar achlysur eu priodas yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd Eisteddfod Bentref.

Penderfynwyd cyfrannu holl elw y raffl a gynhaliwyd yn **Eisteddfod Bentref** Llanrug i Apel y Philipines. Gwnaethpwyd £176 ar y noson, a dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb am brynu'n hael.

Bydd canlyniadau'r eisteddfod yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn Nadolig yr "Eco".



Tomi Llywelyn, 9 oed, a enillodd yr Unawd Alaw Werin dan 12 oed yng Ngwyl Gerdd Dant Cymru Ystrad fflur a'r fro. Mae'n dilyn ol troed ei chwaer fawr, Leisa Gwenllian, a enillodd ar yr Alaw Werin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych eleni.



*Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid
ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa*



oddi wrth

WAVELL'S

Bryn ac
Angela Williams

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn:

Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

DMM



Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn

DMM

LLANBERIS



www.dmmwales.com



GWEITHGAREDDAU Cynllun Cerdded A Darganfod Menter Fachwen Rhagfyr 2013

MERCHER 4.12.13 10yb RHIWLAS/CASTELL (2½ milltir)
CYCHWYN: Canolfan Rhiwlas.
Cymhedrol, ond angen sgidia cerdded.

IAU 5.12.13 11yb-4yp/pm
FFAIR NADOLIG MENTER FACHWEN AC ARDDANGO-SFEYDD O HEN LUNIAU BRO'R 'ECO'
Raffl, stondinau, Dewch a hen luniau o'r fro.
CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y GLO

MERCHER 11.12.13 10yb
CLWT Y BONT A'R DRAMFFORDD (2½ milltir)
CYCHWYN: Caffi EBs, Deiniolen.
Cymhedrol, ond angen sgidia cerdded.

MERCHER 18.12.13 7yh
NOSON GWYLIO'R SÊR (¾ milltir)
CYCHWYN: 'Yr Allt Ddu', Dinorwig. Hawdd, ond yn ddibyn-
nol ar y tywydd.
FFONIWCH 07867 810576 CYN CYCHWYN.
Gwisgwch yn gynnes a dewch a ffagl/fllachlamp gyda chi.

SADWRN 28.12.13 10yb
TAITH GERDDED NADOLIG (4 milltir)
CYCHWYN: PETE'S EATS, LLANBERIS.
Angen sgidia cerdded.

Perllannau Newydd er budd Gwenyn a Phobl



Mae'r Bartneriaeth Garddio Bywyd Gwyllt a leolir yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (YNGC) yn falch iawn o gydweithio â thîm bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i gyflwyno prosiectau'r gaeaf hwn fydd yn creu cynefinoedd newydd ar gyfer peillwyr ar diroedd cyhoeddus.

Ariannwyd y prosiect gan Bartneriaeth Wledig Conwy (PWC) o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r prosiect Cydweithredol 'Gwenyn' yn cynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLI) Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Bydd prosiect yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar blannu perllannau mewn ysgolion ac ar dir cymunedol. Os oes gennych ddiddordeb bod yn rhan o hyn, cysylltwch ag Anna Williams, (Arweinydd Prosiect Garddio Bywyd Gwyllt Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru 01248-360981 / 07772280970

annawilliams@wildlifetrustswales.org Dydd Llun –Dydd Iau)

Croeswir yr arian ar adeg pan fo gwir ysfa a diddordeb gan bobl i dyfu eu bwyd eu hunain. Mae perllannau'n gynefin blaenoriaeth uchel ar gyfer cadwraeth. Nod yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â gwaith a gyflawnir yn y gogledd ddwyrain, yw cynyddu ehangder y cynefin gwyd hwn trwy reoli perllannau traddodiadol sy'n bodoli eisoes, a creu a chynnal rhai newydd.

Dywedodd Anna Williams, "Rydym wrth ein bodd gyda'r cyllid ar gyfer prosiect Cydweithredol 'Gwenyn'. Bydd yr arian yn gymorth i adeiladu ar y gwaith a wneuthum yn y gorffennol gydag ysgolion yn creu gerddi bywyd gwyllt a llysiau mewn ysgolion. Mae bioamrywiaeth perllannau'n eang ac yn cynnig manteision i bobl a bywyd gwyllt. Mae ffrwythau a dyfir yn lleol o amrywogaethau lleol yn chwarae rhan bwysig yn ein hanes diwylliannol a'n treftadaeth naturiol."

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
PAT AC EDGAR
SWYDDFA'R POST
LLANRUG
Ffôn: (01286) 672422

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cyfichi

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Am gymorth:
• i gychwyn prosiect
• i gael hyfforddiant
• i geisio am grant
• i redeg mudiad
• i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 106851 • Cofrestredig yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth
IOLA A STAFF
SIOP CHIPS TEGFAN
Y Sgwâr, LLANRUG
07948 574 354



Pen-blwydd hapus yn 30, Rhian.

Pen-blwydd Arbennig Pen-blwydd Hapus Rhian Meleri (neu Rhian Guto fel mae rhai ohonom yn ei hadnabod). Mi fydd y beiciwr mynydd anturus yn 30 mis yma – lwcus iawn! Llawer o gariad gan dy ffrindiau ym Mhenisarwaun.

Llongyfarchiadau i Ceirion a Donna Williams a chroeso mawr i Caleb Owain. Mae Ceirion, o Benisarwaun, yn byw Llanberis

erbyn hyn. Llongyfarchiadau mawr i Avril a Geraint Williams o Careb, Bryn Eglwys, ar ddod yn nain a taid balch unwaith eto.



Joni and Bethan

Priodas Llongyfarchiadau i Jonathan Richardson (Joni) a Bethan Roberts (Bethan Wyddgrug i'w ffrindiau) a briododd yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, yn ddiweddar. Cynhaliwyd y brecwast briodas ym Mhlas Isaf, Corwen, yng nghwmni ffrindiau hen a newydd. Daw Joni o Benisarwaun ond mae'n byw yn Llanrug gyda Bethan erbyn hyn. Mae ei fam (a'r fam yng nghyfraith falch), Brenda Richardson, yn dal i fyw yn y pentref.

Llongyfarchiadau i Gwenlli a Shaun Holdsworth ar enedigaeth Edi Siôn, brawd bach i Efa a Cynan. Ychydig cyn i Edi bach gyrraedd, fe gollodd Gwenlli ei thad Eddi, colled drist iawn i'r teulu. Cydymdeimlwn gyda chi i gyd.

Llongyfarchiadau i Carmen ac Iwan, 2 Bryn Tirion, ar enedigaeth mab bach, Efan Wyn, brawd bach i Erin ac ŵyr i Irfon a Heddwen. Mae o hefyd yn orŵyr i Mrs Annie Hughes, Cae Hywel gynt, ac yn nai bach i Elen.



Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys

3

Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i yrwyr dros 21 oed!



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**



PEUGEOT

MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 taliad misol o £169.00, cost credit a ffioedd £1,277.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y gars neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigurau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a CO2 87 – 135



Atgofion Cam yn ôl i'r gorffennol – ychydig o fechgyn y pentref yn y Cae Swings ar ddiwedd y 70au.

Gwellhad Buan Gobeithio dy fod yn dod atat dy hun, Harri Wilson Williams, ar ôl dy ddamwain diweddar. Rydym yn falch o glywed dy fod yn gwella yn ara deg. **Croeso 'nôl** i'r pentre, Ken Richardson. Ar ôl bod yn athro am 15 mlynedd mae Ken wedi penderfynu dilyn trywydd gyrfa gwahanol – dymunwn yn dda i chi yn eich gyrfa newydd. **Diolch** Dymuna Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, ddiolch i bawb am

eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar Hydref 30ain. **Cronfa Pensiynwyr Pêl Bonws Loteri** - Enillydd Mis Medi oedd Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt. Llongyfarchiadau. **Cyfarchion Nadolig** Hoffai Nannie, 26 Bryntirion, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Rhedwyr Ysgol Penisarwaun Roedd pedair o ddisgyblion yr Ysgol Gynradd ymysg y deg uchaf yn Ras Coedwig y Ddraig yn Llanddwyn yn ddiweddar. Mae Abbi a Georgia Parkinson (9 oed) ac Efa a Mabli Baines (8 oed) yn efeilliaid. Dim ond yn ddiweddar mae nhw i gyd wedi cychwyn arni, ac mae Georgia ac Abbi wedi cael cynnig i ymuno â Chlwb Rhedeg Menai. Llongyfarchiadau mawr i chi a phob lwc yn y dyfodol, ferched!



Rhedwyr Ysgol Penisarwaun

Dymuna Betty, 3 Llys y Gwynt, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn gyrru cardiau eleni. Dymuna Arnold a Pat Jones, Tai Arthur, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a chyfeillion.

Byddant yn cyfrannu arian at achos da yn hytrach nac anfon cardiau. **Cyfarchion Nadolig** Dymuna Myra Griffith yrru cyfarchion y tymor i'w ffrindiau ym Methel a Penisarwaun. Ni fydd yn anfon negeseuon personol eleni.

Yn blygeiniol ar fore llun Hydref 14eg cychwynnodd llond bws o aelodau Côr Meibion Dinas Bangor ynghyd â chyfeillion y Côr ar daith pum niwrnod i Ynys Vlieland yn rhanbarth Friesland yn yr Iseldiroedd. Mae hon yn ynys arbennig gan nad oes modd i dramwyo'r Ynys ond ar droed neu feic. Nid oes angen dweud fod nifer helaeth o aelodau'r Côr, gan gynnwys yr arweinyddes wedi manteisio yn llawn ar y cynnig i gael benthgyn un o'r beiciau mawr am yr wythnos. Rhaid nodi hefyd i un neu ddau gael trafferth i gychwyn ar eu beiciau ac i un neu ddau gael cwmp. Da yw gallu adrodd na fu anaf difrifol! Bu eraill yn crwydro yma ac acw ar hyd y ffordd hir sy'n dilyn yr arfordir ac ar hyd y rhwydwaith o lwybrau hyfryd sy'n croesi'r ynys.

Mae Ynys Vlieland yn un o bump ynys oddi ar arfordir gogledd orllewin o'r Iseldiroedd, gyda Môr y Gogledd ar un ochr a Môr Wadden ar yr ochr arall. I gyrraedd yno bu raid hedfan o Lerpwl i Amsterdam, wedyn croesi gwastatir yr Iseldiroedd gan deithio milltiroedd lawer ar forglawdd sy'n cadw'r môr rhag boddi'r tir gwastad. Cyrraedd porthladd hyfryd Harlingen, cael cyfle i ymweld â'r dref ac yna treulio awr a hanner yn croesi'r Waddenzee mewn llong fferi gyfforddus. Gan fod ysgolion yr hanner deheuol o'r wlad ar eu gwyliau hanner tymor yr oedd nifer helaeth o deuluoedd ar y llong yn mynd i fwynhau beicio a cherdded yn y tywydd braf ar yr ynys. Manteisiodd rhai o aelodau'r côr i gynnal cyngerdd anffurfiol ar y llong a bu hyn yn hysbyseb i ddenu nifer o'r teithwyr i'n cyngerdd. Wedi cyrraedd yr ynys roedd ein cysylltiadau yno, Ian ac Erna, gyda draig goch enfawr yn cael ei chwifio yn arwain y fintai ohonom o'r

fferi i fyny'r ychydig ffordd i'n gwesty. Ar y nos Fercher y bu i'r Côr gynnal y cyngerdd ar y cyd â Chôr Meibion yr ynys yn yr unig eglwys - Eglwys Brotestanaidd Sant Nicholas gyda'i horgan a phiano 'grand' o safon. Roedd thema werinol a morwrol i gyfraniad côr yr ynys a chyflwynodd Côr Meibion Dinas Bangor raglen amrywiol ei naws yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gan fod ein cyfeilydd dawnus, Gwilym Lewis, wedi treulio rhai blynyddoedd yn dysgu yn yr Iseldiroedd, gwerthfawrogodd y gynulleidfa gyflwyniad graenus ganddo mewn Isalmaeneg. Cyflwynwyd yr eitemau gan ein Cadeirydd, Dafydd Ellis, gyda ein harweinyddes newydd, Lowri Roberts Williams, wrth y llyw. Roedd ymateb y gynulleidfa niferus yn dysteb i lwyddiant ysgubol y cyngerdd. Gwerthfawrogwyd hefyd y ffaith fod ein côr wedi canu dwy gân yn yr iaith frodorol yn ogystal â cherdd Gymraeg wedi ei gosod ar un o alawon soniarus yr Iseldiroedd i drefniant arbennig gan ein harweinyddes. Cafwyd cyfraniad hefyd gan y ddau unawdydd Norman Evans ac Aneuryn Jones.

Wedi diwrnod arall o ymlacio a chrwydro'r ynys, dyma gychwyn ar y daith hir adref gydag atgofion melys o ynys hyfryd, yr amrywiol deithio – mewn awyren a bws, ar droed ac ar feic a hwylio'r Waddenzee. Bu'n daith arbennig o lwyddiannus a phleserus i'r Côr. Ar y ffordd cawsom gyfle i weld peth o olygfeydd y brifddinas hyfryd, Amsterdam. Mae ein diolch i Huw Harri Williams, Myfyr Parri ac Aneuryn Jones am eu rhan yn trefnu'r daith.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Diwrnod Plant mewn angen - Cafodd y plant gyfle i ddod i'r Ysgol mewn gwisg nos ddydd Gwener, Tachwedd 15fed, gan dalu dirwy o £2. Roeddent wedi bod yn brysur yn gwneud cacennau a'u gwerthu yn ystod egwyl y bore. Trosglwyddwyd yr arian a gasglwyd i gronfa Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Diwrnod yn Ysgol Brynrefail - Cafodd plant Bl 6 gyfle i dreulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail ddydd Mercher, Tachwedd 20fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Sioe Nadolig - Cynhelir y Sioe eleni dydd Mawrth, Rhagfyr 10fed. Bydd perfformiad am 1:30 y pŵn a 6 o'r gloch yr hwyr. Bydd yn bosib prynu tocynnau o'r Ysgol am £3.50 i oedolion a £2 i bensiynwyr a phlant Ysgol uwchradd. Croeso cynnes i bawb.

Pantomeim - Byddwn yn mynd â phlant Bl 0 i 6 i "Venue Cymru" Llandudno pŵn dydd Mercher, Rhagfyr 11eg i weld y Pantomeim "Sleeping Beauty".

Diwrnod Siwmpwr Nadolig - Bydd cyfle i'r plant (a'r oedolion!) wisgo siwmpwr Nadoligaidd dydd Gwener, Rhagfyr 13eg a thalu dirwy o £1. Byddwn yn trosglwyddo'r arian i gronfa Achub y Plant.

Cinio Nadolig - Bydd Anti Carolyn yn paratoi cinio Nadolig ddydd Gwener, Rhagfyr 13eg. Mae cyfle i'r plant Meithrin ymuno â ni yn ogystal a'r plant sydd yn arfer cael pecyn bwyd. Y gost fydd £2 i blant a £2.50 i oedolion.

Cyfnod Sylfaen - Bore dydd Mercher, Rhagfyr 18fed, bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn ymweld ag Amgueddfa Lechi Llanberis ac yna mynd ar Drên Siôn Corn.

Adloniant yn y Gymuned - Cynhelir Pŵn Wasael ddydd Mercher, Rhagfyr 18fed am 2 o'r gloch. Bydd cyfle i ganu carolau a gwrando ar eitemau gan blant yr ysgol. Bydd Pŵnsh a mins pei

i'w gael ar y diwedd. Croeso cynnes i bawb.

Gwyliau Nadolig - Bydd yr Ysgol yn cau ddydd Gwener, Rhagfyr 20fed, ac yn ail agor i'r plant ddydd Mawrth, Ionawr 7fed.

Ysgol Sul Bosra Bu'n adeg prysur a chymdeithasol iawn yn ddiweddar gyda gwasanaeth o Gofio Bechgyn Capel Coch a syrthiodd yn y Rhyfeloedd Byd a'r cyd-gofio wrth y Gofeb ger yr Eglwys gyda aelodau Eglwys Santes Helen. Fore Sul, Tachwedd 17 yn y Ganolfan yn Llanberis, fe fwynhaodd nifer dda o'r plant orig o gemau, storiâu a chrefftâu yng ngofal trefnwyr amryddawn 'Cic Sul Efe' a dymunir diolch iddynt am gynnig cymaint o weithgareddau diddorol i'r plant a chyfle iddynt gymdeithasu gydag aelodau Ysgolion Sul y fro. Braf iawn oedd gweld Harri yn ymuno yn yr hwyl wedi ei anffawd i'w goes yn ddiweddar.

Ar Sul, Rhagfyr 15fed, gobeithir ymweld â Siôn Corn yng Ngorsaf Trên Bach y Llyn. Enwau i Anti Liz, Fiona neu Anti Ann os gwelwch yn dda.


Diolch Dymuna Liz ac Eric, 17 Bryntirion, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Diolch o galon.

Plygu'r Eco Dymunir diolch i Swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd i blygu'r Eco nos Iau, Medi 23ain. Diolch unwaith yn rhagor i'r ffyddloniaid ac i Marian am y gwaith diflino o rwymo'r rhifynnau.

Y Wasg fydd yn plygu'r papur o hyn ymlaen, bwndelu yn unig a wneir yn y gwahanol bentrefi gan gadw at y drefn arferol o ymweld â phob pentref yn y dalgylch yn ei dro.

Pwyllgor Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd: Helen Stone, Llys Arddun a Katy Williams, Tyddyn Waen. Enillwyr mis Tachwedd yw: Carol Jones, Ysgol Gymuned a Beca Elin, Llanfairpwll.

Diolch i bawb a gefnogodd y Catalog Webb Ivory. Am 2 o'r gloch dydd Iau, Rhagfyr 18, cynhelir Pŵn Wasail, gydag eitemau gan blant yr ysgol ac aelodau o'r pwyllgor yn y Neuadd Gymuned. Bydd cyfle i gyd-ganu'r Hen Garolau dros baned neu bŵnsh a mins pei. Croeso cynnes i bawb.



**CYNGERDD
CAROLAU**

**2 o'rgloch DYDD SUL
RHAGFYR 15²⁰¹³
MYNYDD GWEFRU
LLANBERIS**

★ **HOGIA'R WYDDFA** ★
Annette yn cyfeilio

★ Seindorf Arian Deiniolen
★ Côr Meibion Dyffryn Peris

MYNEDIAD AM DDIM

● BYDD CASGLIAD TUAG AT-
Hospis yn y Cartref- Gwynedd a Môn
Collection-Gwynedd & Anglesey- Hospis at Home

**ECO'r
Wyddfa** *Nadolig Llawen i bawb*




**YSGOL YRRU
ELIDIR
Driving School**

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo
gan yr ASG

07922121226
NEU
(01286) 882269

**GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1**



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG**
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Sefydliad y Merched Yn y Cyfarfod Blynnyddol ar Dachwedd Sed croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Elinor Rhys Williams, Pennaeth Pwyllgor Trefn y Ffederasiwn. Cafwyd yr Adroddiad Blynnyddiol gan Pat Parry, yr Ysgrifennydd, a'r Adroddiad Ariannol gan Rose Ann Hughes, y Trysorydd. Yn dilyn pleidlais ail-etholwyd Catherine yn Llywydd. Cytunodd y gweddill o'r swyddogion i sefyll am flwyddyn arall.

Ar ôl dewis y swyddogion roedd Mrs Williams yn fodlon iawn gyda'r ffordd yr oedd y Sefydliad yn gweithio a dymunodd yn dda i'r aelodau gan ddiolch am bob help, wedyn cafwyd cwis ganddi. Diolchodd Catherine i'r holl aelodau am yr help yr oedd hi wedi ei gael ganddynt yn ystod y flwyddyn ac hefyd i Mrs Williams am gynnal y cyfarfod. Y cyfarfod nesaf fydd ein cinio Nadolig yng Ngholeg Menai ar Rhagfyr Sed.

Clwb 300 Enillwyr mis Hydref oedd: £30: Mr Wilf Jones, Treflys; £20: Mrs M.E. Overbury, d/o Bryn Owen Allt; £10: Miss Sian Thomas, Tŷ'r Ysgoldy.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail Cafodd plant Waunfawr lwyddiant aruthrol yn yr Eisteddfod eleni.

Daeth Mared Ynyr i'r brig yng nghystadlaeth y Gadair gyda Gwenllian Jones yn ail ac Erin Ynyr yn drydydd. Yn yr un modd derbyniodd Faye Latham Dllws y Llenor Saesneg.

Yng nghystadlaeth Tlws y Llenor iau, daeth Tomos Morgan yn drydydd.

Cafwyd cryn lwyddiant gyda'r offerynnau cerdd. Llwyddodd Huw Emrys i gael y safle cyntaf yng nghystadlaeth y Chwythbrennau. Daeth Tomos Morgan yn gyntaf yn yr Unawd Piano a Tomos Parry yn drydydd. Derbyniodd Enlli Pritchard yr ail safle wrth chwarae'r Ffidl.

Yn yr Adran Gwaith Cartref derbyniodd Mabon Pritchard y Tlws Gwyddoniaeth a Tomos Parry y Tlws Mathemateg. Hefyd gwelwyd llawer wyneb cyfarwydd ar y llwyfan yn aelodau o barti llefaru, parti canu ac, wrth gwrs, y pedwar côr.

Rydym yn ymfalchio yn llwyddiant pob un ohonoch. Da iawn chi i gyd am ymuno yng ngweithgareddau yr ysgol.

Teithio Ymhell Un o'r rhai a ddewiswyd gan Fudiad yr Urdd i fynd ar ymweliad â Phatagonia eleni oedd Erin Ynyr, Dolwar Fach, disgybl Bl 13 yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Roedd yn brofiad arbennig a bythgofiadwy iddi. Daeth adre yn ôl wedi mwynhau pob eiliad. Rwan, wedi ei nodi ar ei rhestr o'r 'Y pethau garwn i wneud' mae 'Dychwelyd i Batagonia pan ga' i gyfle.'

Genedigaethau Daeth Gary a Chrinstine Davies, Hafan, yn daid a nain i Mali, merch fach i Llinos ac Andrew, chwaer a ffrind i Dion Siôn ac Ela.

Ganwyd merch fach i Hywel ac Elin, Nel Griffith Roberts, wyres fach i Rhian, Gorffwysfa, ac Emyr Evans.

Daeth wŷr bach newydd, Owain Hedd, â hapusrwydd i Sylvia Prys, Pen-y-Graig. Mab i Gwennan ac Aled, a brawd i Mared.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a

mwynhewch y magu.

Dyweddio Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Beth Greasley, Stad Pant y Waun, ar ei dyweddïad ag Arron, o Bontnewydd.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Lois Angharad, Tan-y-Coed, Stad Bod Hyfryd, ar gyrraedd ei deunaw oed. Pob dymuniad da iti, Lois.

Syrthio a Brifo Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau am wellhad buan i Nia Jones, Dwyfor, wedi iddi dorri ei braich ac at Doctor Williams, Tros-y-Gors, wedi iddo yntau anafu ei ysgwydd.

Diolch Dymuna Dylan Rhys, Nia a'r teulu, Eryri Wen, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli Ronwen, chwaer Dylan yn America.

Gwasanaethau Eglwys y Waun yn ystod mis Rhagfyr:

- 8: Mrs Nerys Griffith
- 15: Y Gweinidog, y Barch Gwenda Richards
- 22: Parch Ddr Elwyn Richards
- 29: Y Gweinidog

CYFLENWYR PORTHIAINT
IDRIS MORRIS
 BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
 GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



RHEILFFORDD LLYN PADARN



Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarlennwyr Eco'r Wyddfa

Diolch am ein cefnogi drwy gydol y flwyddyn



Parc Gwledig Padarn, Llanberis,
 Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk
 01286 870549


GLANHAWR
SIMDDE



Glanhau Simdde Tân Agored
 ac hefyd
 Stôf goed a "Multi Fuel"
 Aga/Rayburn- Olew/Nwy
 Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ysgol Waunfawr

Diwrnod Plant Mewn

Angen Roedd yn braf gweld y plant i gyd wedi gwisgo ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen ddydd Gwener ddiwethaf. Yn ystod y dydd cafwyd llawer o weithgareddau i ymwneud â'r diwrnod -gwneud bathodynau Pudsey, gweithgareddau dosbarth yn seiliedig ar y diwrnod, gwerthwyd breichledi, addurno bisgedi Pudsey a chafwyd ymweliad gan Radio Cymru a Pudsey cyn cinio. Casglwyd £265.00 tuag at yr achos, sy'n swm canmoladwy iawn. Diolch i bawb.

Ffair Grefftau Nadolig

Diolch i'r rhieni a gefnogodd Ffair Grefftau Nadolig a drefnwyd yn y Ganolfan gan y Gymdeithas Rheini a Chyfeillion yr ysgol. Roedd hi'n braf gweld y Ganolfan yn llawn prysurdeb. Gwnaed elw o £385.00. Diolch eto i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith diflino, rydym yn gwerthfawrogi eich

holl ymdrechion.

Ymgyrch y Plentyn Diolch eto i'r teuluoedd a gefnogodd Ymgyrch Nadolig y Plentyn drwy lenwi bocs o anrhegion ar gyfer plant llai ffodus na ni. Mae'n bwysig cofio ar drothwy tymor y Nadolig fel hyn ei bod yn bwysig iawn rhoi ac nid yn unig derbyn. Sylweddolwn hefyd bod rhoi bocs o roddion fel hyn yn gostus y dyddiau hyn. Casglwyd 40 o focsys eleni.

Cyngerdd Nadolig Band Ieuencid Arfon

Braf oedd gweld 4 o ddisgyblion yr Adran Iau yn cymryd rhan yng Nghyngerdd Band Ieuencid Arfon yn Theatr Seilio Nos Fercher, Tachwedd yr 20fed. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn gwersi pres yn yr ysgol gan Dylan Williams.

Mwynhaodd y deg disgybl ym mlwyddyn 6 eu hymweliad ag Ysgol Brynrefail ddydd Iau ac mae hen edrych ymlaen am yr ymweliad nesaf.

Diwrnod Addysgol Cafwyd

weithgareddau diddorol yn ymwneud â'n themâu hanes yn yr adran Iau ddydd Gwener. Daeth Mr John Dilwyn o'r Archifdy yng Nghaernarfon i roi sgwrs i flwyddyn 3 a 4 am hanes yr ysgol yn amser Fictoria tra bu blwyddyn 5 a 6 yn astudio arteffactau cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Yn y prynhawn daeth yr awdures Mrs Brenda Wyn Jones at flwyddyn 5 a 6 i drafod ei llyfr 'Sais ydio Miss!'. Bu'n ddiwrnod addysgiadol i bawb. Dyma restr o ddiwyddiadau o hyn hyd ddiwedd y tymor:

* Bwriedir cynnal Noson Agored i rieni y Dosbarth Meithrin nos Fercher, Rhagfyr y 4ydd, am 6.30 yr hwyr. (Gan obeithio y bydd Mrs Sioned Parry yn holliach erbyn hynny).

* Bydd blwyddyn 3 a 4 yn ymweld ag Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy fore Rhagfyr y 4ydd i ddysgu am draddodiadau'r Nadolig Fictoriaaidd.

* Bydd blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn y pnawn i wneud addurn Nadolig a chael dysgu am draddodiadau'r Wyl.

* Bydd Cwmni Da yn ffilmio'r plant yn canu carol Nadolig ar gyfer ei darlledu ar y Maes yng Nghaernarfon Rhagfyr y 6ed. Bydd y plant yn canu yr un noson yn Noson Miri Siôn Corn yn yr Antur.

* Bydd cinio Nadolig i'r plant ar Ragfyr yr 11eg ac fe gynhelir Ffair Nadolig yr ysgol yr un noson.

* Byddwn yn cefnogi Ymgyrch Achub y Plant ddydd Gwener, Rhagfyr y 13eg, drwy gael pawb yn gwisgo Siwmpwr Nadoligaidd.

* Cynhelir ein Sioeau Nadolig nos Fawrth, Rhagfyr yr 17eg, pnawn a nos Fercher, Rhagfyr y 18fed. Cynhelir cyngerdd Nadolig y Meithrin ddydd Gwener, Rhagfyr 20fed, yn yr ysgol am 9:30 y bore.

* Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener, Rhagfyr yr 20fed.

HWB I WAUNFAWR

Mae pentref Waunfawr wedi llwyddo i ddenu cymhorthdal sylweddol o £14,000 i ddarparu maes chwarae a lleoedd parcio ym mhen pella'r pentref yn Gerddi Bach ger Dolerddi, yn ogystal a darparu wyneb newydd i faes parcio a llecynnau cyfagos ger Canolfan y pentref.

Dywedodd y Cynghorydd Eurig Wyn, Cadeirydd Pwyllgor Cae Chwarae Gerddi Bach a fu'n pwyso am yr arian i adfer y ddau leoliad: "Mae hyn yn newyddion rhagorol i'r pentref ac yn ganlyniad holiadur a ddosbarthwyd i deuluoedd yr ardal i holi beth fyddai eu dymuniad i ddigwydd yng Ngerddi Bach. Mae'n amlwg fod Mantell Gwynedd wedi cael eu plesio gan awydd a brwdfrydedd Waunfawr i edrych ar ôl eu plant a phobl ieuanc ac i sicrhau man chwarae iddynt ym mhen draw'r pentref i osgoi iddynt orfod cerdded ar hyd y briffordd beryglus i gaeau'r Ganolfan."

Mae'r Cyngor Cymuned hefyd wedi chwarae rôl sylweddol i roi arian ymlaen o'u cronfeydd er mwyn denu cymhorthdal ychwanegol gan Gyngor Gwynedd. Dywedodd Eurig Wyn fod hyn yn enghraifft dda o gydweithio effeithiol rhwng adrannau a'i fod yn ddiolchgar eithriadol i'w gyfeillion ar y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir.

Disgwylir y bydd y gwaith ger y Ganolfan yn dechrau ar unwaith a'r gwaith yn Gerddi Bach yn y flwyddyn newydd. Diolchodd Eurig i'r cynghorydd cymuned Terry Parry am ei help sylweddol i lunio'r cynlluniau a chysylltu â chwmnïau adeiladu.



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Ffair Nadolig
STRYD FAWR LLANBERIS
6 o'r gloch Nos Iau Rhagfyr 12

Ym
Maes Parcio Gwesty'r "HEIGHTS"

GOLEUADAU'R GOEDEN NADOLIG YMLAEN
TAITH LAMP o'r GANOLFAN am 6 o'r gloch
SAMBA BAND • CANU CAROLAU
Sion Corn yn bresennol gyda chymorth y "Bwrdd Crwn"
STONDINAU CŴN POETH • BBQ
TOMBOLA • CREFFTAU



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526



YMGYRCH 'NID YN FY ENW I'



Cor Meibion Dyffryn Peris yn diddori Sefydliad y Merched yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis fis Tachwedd, ac yn gwisgo rhuban gwyn i gefnogi ymgyrch 'Nid yn fy enw i'.

Mae Ffederasiwn Gwynedd - Caernarfon o Sefydliad y Merched yn ymuno yn yr ymgyrch genedlaethol eleni i annog grwpiau, mudiadau a chymdeithasau i gefnogi'r ymgyrch 'Nid yn fy Enw i'. Mae'r ystadegau yn dangos y bydd un o bob pedair merch yng Nghymru'n dioddef trais wrth law cymar yn ystod eu bywydau, a bydd 150,000 o ferched yng Nghymru'r dioddef rhyw fath o drais ar sail rhyw bob blwyddyn. Rydym yn ymgyrchu i annog dynion a bechgyn i siarad allan yn erbyn trais yn erbyn merched ac i ddangos hynny drwy wisgo Ruban Gwyn yn ystod y pythefnos penodedig yn cychwyn ar y 25ain o Dachwedd. Y llynedd derbyniwyd cefnogaeth gan Undebau'r Amaethwyr, Ffermwyr Ifanc Cymru, Only Men Aloud a nifer o gorau meibion a chlybiau chwaraeon.

Yma yn Sir Caernarfon mae Band Arian Deiniolen, Meibion Dwyfor, Côr Meibion Dyffryn Peris a Chôr Meibion Caernarfon yn ogystal â'r Aelod Cynulliad Alun Ffred Jones a'r Aelodau Seneddol, Guto Bebb, Hywel Williams ac Elfyn Llwyd eisoes wedi datgan eu cefnogaeth i'r ymgyrch.

Beth amdanoch chi - a ydych chi'n barod i ymuno â hwy a chefnogi'r ymgyrch yma.

I ddatgan eich cefnogaeth neu i gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Margaret Lloyd Jones ar 01758 612752.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Dylan**
Stryd Fawr Llanberis
Ffôn: **870777**

Manteisiwch ar y cyfle i brynu dillad a nwyddau
awyr agored – hyd at **50%** i ffwrdd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau
Altro
Ailwnio



54 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: **870088** GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

**EIRWYN
WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO**

Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth



Y DYN CIG
BRYNAFON, LLANRUG
675190 • 673188
Symudol: **07798 718188**

Gwasanaeth lleol ar gyfer
Partïon•Priodasau
Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur
Cig o ffermydd lleol, Partïon rhwng 40 a 400!
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â: **John Hughes Jones** ar un o'r rhifau uchod



CHWILOTA EISTEDDFOTA.

Mae'n dymor eisteddfodau'r fro: Ysgol

Brynrefail, Gwaun Gynfi a Llanrug, ond ceir adroddiadau am y rheini ar dudalennau eraill y rhifyn hwn ac yn rhifyn Nadolig. Y mis hwn awn yn ôl i fis Mai a thywydd mwy addfwyn! Ond nid i fis Mai eleni, ond yn hytrach i 1948, a hynny mewn gwlad arall. Dros yr wythnosau diwethaf bu cryn drafod ar y tebygolrwydd o 'ddefnyddio' yr Eisteddfod Genedlaethol fel llwyfan i gofio diwedd y Rhyfel Mawr. Bu son hyd yn oed am gynnal eisteddfod 2018 ym Mhenbedw i gofio cadair ddu Hedd Wyn. Ond rhaid cofio nad oedd cynnal eisteddfodau yn Lloegr ganrif a llai na hynny yn ôl, yn beth mor ddieithr. Soniais o'r blaen yn y golofn am Eisteddfod Lewis's yn Lerpwl, a dyma ddychwelyd at un arall o'r eisteddfodau rheini y mis hwn.

Gan Mrs Phyllis Morris, Deiniolen y cefais fenthyg rhaglen Eisteddfod Lewis's a gynhaliwyd ar dri diwrnod ym mis Mai 1948, sef dydd Iau hyd ddydd Sadwrn. Ond roedd yr agoriad swyddogol yn digwydd ar nos Fercher, a hynny gan Syr Ifor Williams, a chyngerdd mawreddog yn dilyn yn y 'Central Hall'. Arweinydd y cyngerdd (ac yr oedd mynediad yn ddi-dâl, gyda llaw) oedd Caerwyn, a'r cadeirdd oedd Philip Whalley, Cyfarwyddwr Cwmni Lewis's. Tybed a oedd yn medru'r Gymraeg? Ymhlith yr artistiaid roedd enwau pur adnabyddus fel Telynores Maldwyn, a'r cyfeilyddion Maimie Noel Jones a Ffrancon Thomas. Trefnydd y cyngerdd oedd Gwilym Bethel. Credaf mai un o'r Felinheli ydoedd, ond yn byw ym Mhenrhosgarnedd, Ei enw oedd W.C.Thomas, ac ef oedd ysgrifennydd yr eisteddfod hefyd.

Roedd y cystadlu yn cychwyn o ddifrif am hanner awr wedi naw fore Iau gyda chystadleuthau'r plant a'r ieuenctid. Yn ystod y bore roedd unawdwyr dan 14 oed ac unawdwyr rhwng 14 a 18 oed yn cystadlu ar unrhyw gân o'u dewis, a hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Sylwais ar enw Gwyneth Peris ymhlith y cystadleuwyr yn canu 'Och Vieni Non Tardar' gan Mozart. Tybed a oedd yn un o ardal Llanberis? Am un o'r gloch y pnawn roedd cystadleuaeth

y corau plant. Pedwar côr oedd yn cynnig am wobr o £20, sef Penygroes, Seilo Bach, Caernarfon, Y Felinheli a c Ebenezer, Caernarfon. Yn y pnawn hefyd roedd cystadleuaeth Cerdd Dant – ond mewn ystafell o dan y neuadd!

Cystadleuthau'r unawdau oedd ar ddydd Gwener – unawdau Cymraeg a rhai heb fod yn Gymraeg. Am dri o'r gloch y pnawn cai'r unawdwyr egwyl a chynhaliwyd seremoni'r cadeirio. Cynan a'r Parch William Morris oedd yn beirniadu. Maeres Bangor oedd i gyflwyno'r wobr ariannol, a chai'r seremoni ei chloi gydag anerchiad gan Arglwydd Faer Dinas Lerpwl. Ymlaen wedyn gyda'r unawdwyr! A thra roedd hyn yn digwydd, roedd y gystadleuaeth i adroddwyr yn cael ei chynnal, fel y canu penillion, mewn ystafell o dan y neuadd.

Roedd diwrnod llawn arall o gystadlu ar y Sadwrn, gyda phroffion terfynol yr unawdwyr a'r adroddwyr (a fyddai ar y prif lwyfan!) Roedd cystadleuthau'r bore yn gorffen gyda chorau merched. Pedwar côr oedd yn cystadlu: Abercraf, Fflint, Porthaethwy a Llanberis (Mr W. James yn arwain), gyda gwobr gyntaf o £45. Tybed pwy enillodd? Oes rhywun o'r ardal yn cofio cystadlu gyda Chôr Merched Llanberis? A phwy oedd Mr W. James?

Am hanner awr wedi dau y pnawn roedd cystadleuaeth y corau cymysg, ond doedd neb o fro'r "Eco" yn cystadlu. Am bump o'r gloch y pnawn roedd y brif gystadleuaeth goraw, sef y corau meibion i rai gyda dros 50 o aelodau. Roedd pump o gorau'n cystadlu: Parlwr Du, Wyddgrug, Rhosllannerchrugog, Bersham a Chwarel Dinorwig (Peleg Williams yn arwain). Dyna bedwar côr o ardal y pyllau glo yng ngogledd ddwyrain Cymru ac un o ardal y chwareli. Ar y rhaglen ym meddiant Mrs Morris mae marciau'r pump côr wedi eu cofnodi, a'r chwarelwyr aeth a hi yn erbyn y glowyr, gan ennill Cwpan Arian a £100, a baton arian i'r arweinydd. Roedd telerau'r gystadleuaeth yn nodi fod y ddau gôr buddugol i ail-ymddangos ar y llwyfan i gloi'r eisteddfod dan arweiniad Syr Hugh Robertson.

Oes unrhyw un yn cofio canu gyda Chôr Meibion Chwarel Dinorwig? A pha bryd y daeth oes y côr i ben?

Llawer o ddiolch i Mrs Morris am ddwyn i gof gysylltiadau'r fro ac Eisteddfod Lewis's, Lerpwl.

Cofnodi Enwau.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf lansiwyd gwefan newydd sy'n gofyn am gymorth pobl o bob rhan o Gymru i gofnodi enwau o fewn eu hardaloedd. Mae gwybodaeth llawn am y wefan a'r hyn sydd ei angen ar dudalen 16. Rwyf eisoes wedi dechrau llenwi enwau ar gyfer Llanrug, felly, anogaeth sydd yma i chwi ddarllenwyr y golofn i logio ar wefan Cymru1900Wales a dechrau llwytho enwau ac amrywiaethau ar enwau lleoedd o fewn eich cymdogaeth.



Cofio'r Rhyfel Mawr...

Tybed faint o luniau, llythyrau, tystysgrifau, medalau a phetheuach eraill o gyfnod y Rhyfel Mawr sy'n swatio mewn droriau neu focus llychlyd yng nghartrefi'r fro? Mae'r sylw sy'n cael ei roi yn y wasg a'r cyfryngau dros y misoedd diwethaf yn paratoi ar gyfer y cofio a gynhelir y flwyddyn nesaf, ganrif wedi cychwyn y Rhyfel Mawr. Eisoes cawyd son yn y golofn hon am rai o'r colledion.

Cysylltodd Mrs Mair Varney, Llanrug i son am un a ddychwelodd o'r Rhyfel Mawr, sef ei thad, Mathew Jones, a fu'n gweithio fel peiriannydd. Ac yn ei meddiant mae tystysgrif a dderbyniodd fel arwydd o werthfawrogiad am ei waith.

Nadolig Llawn
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)


Caban
cyf



...A chofio'r Ail Ryfel Byd.

Daeth dau lun i law yn ymwneud â'r Ail Ryfel Byd. Cerdyn coffa yw'r cyntaf, a anfonwyd gan Mrs Griffith, Llanrug. Mae'n coffau Griffith Beavan Lewis o Frynrefail, a oedd yn gyfaill i'w thad, y

diweddar Richard Griffith, Foelas, Llanrug. Bu Griffith Lewis farw ym mis Medi 1944 a chladdwyd ym mynwent Brussels Town, Gwlad Belg.



Anfonwyd yr ail lun gan Alun P. Jones, Caernarfon, sy'n holi am y gweithwyr yn y llun. Mae ei dad, y diweddar Tom Powell Jones yn eistedd yn y rhes waelod ar y dde. Gweithwyr NECACO sydd yma, ond y cwestiwn yw – ble? Rydym ni yn y fro hon yn

arfer meddwl am waith NECACO yn Llanberis dros gyfnod y rhyfel, sef y North East Coast Aircraft Company. Ond roedd gan y cwmni ganolfannau llai yng Nghaernarfon – Gwaith Victory ar Ddoc Victoria, a'r Central Garage, ac ar safle hen waith brics Peblig islaw Caeathro. Felly, llun o weithwyr ym mhle yw hwn?

ECO'r
Wyddfa

Nadolig Llawen i bawb

A dyna'r cyfan am y mis, ac fe fyddwn yn ôl mewn cwta dair wythnos. Felly, anfonwch unrhyw ymholiad neu wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffon 01286 673515.

GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Crynodeb o gofnodion cyfarfod y 1af o Hydref
Cais Cynllunio Parc Nant y Garth
 Cyflwynwyd dadl yr ardalwyr yn erbyn y datblygiad a hefyd ddadl o blaid y datblygiad. Trafodwyd y cais yn drylwyr a phenderfynwyd peidio ei wrthwynebu nac ychwaith ei gymeradwyo gant y cant.
 Cefnogwyd amcan y cais ond os y caiff ei ganiatau, pwysleisiwyd y bydd angen rheolau llym ynglŷn â'r defnydd o'r safle.
 Penderfynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd o'r amodau canlynol:
 1. Peidio amharu ar bentref Seion
 2. Y drafnidiaeth i mewn ac allan o'r safle i ffordd Nant y Garth yn hytrach na thrwy bentref Seion
 3. Bod yn ofalus wrth ganiatau trwydded gweithredydd.
 4. Asesiad trylwyr o amodau amgylcheddol.
 5. Edrych yn ofalus ar leoliad y fynedfa gan ei bod mor agos at y ffordd fawr Rhoddion i fudiadau'r gymuned:

Neuadd Penisa'rwaun £300; Neuadd Rhiwlas £300; Neuadd Bethel £300; Llais Ogwan £100; Eco'r Wyddfa £300; Eisteddfod Bethel £300; Eisteddfod Penisa'rwaun £300; Eisteddfod, Deiniolen £300; Cynllun EFE £500; Seindorf Arian Deiniolen £300; Clwb Bro Bethel £150; Clwb Snwcer, Deiniolen £150; Clwb Snwcer Bethel £150; Clwb Pêl-droed Ieuctid Bethel £150; Cymdeithas Lenyddol Bethel £150; Clwb Rhiwen, Rhiwlas £150; Ti a Fi Penisa'rwaun £150; Grŵp Dyfodol Deiniolen £300; Ysgol Feithrin Deiniolen £150 ymlaen llaw ddechrau'r flwyddyn.

Crynodeb o gofnodion y 5ed o Dachwedd
Materion o'r cofnodion

Llochesau bws. Dywedodd Sion Jones ei fod mewn cysylltiad â Swyddog Gwynedd ynglŷn â dwy loches ychwanegol ym Methel – un ger Ceir Cymru a'r llall ger y gyffordd at Swyddfa'r Post a gofynnodd i'r Clerc gyflwyno'r ffurflen gais ffurfiol. Dywedodd y Clerc bod Gwynedd wedi addo yn bendant osod lloches newydd ym Mhenisa'rwaun yn fuan. Mae'r llochesau eraill wedi eu hatgyweirio heblaw am y ddau yn Ninorwig. Penderfynwyd gofyn i Wynedd gael golwg ar rhain gan eu bod o wahanol wneuthuriad.

Cyfeiriwyd at y sefyllfa yn Rhiwlas – mae angen lleoliad ar gyfer y lloches.

Ffyrdd. Derbyniwyd ateb Gwynedd ynglŷn â'r ceir sy'n parcio ger y Cae Chwarae, Penisa'rwaun, a gwybodaeth bod angen mwy o arbrofi cyn gosod arwyddion 20mya drwy'r pentref.

Biniau baw cŵn. Gan mai ond un bin i bob Pentref y bwriedir eu gosod awgrymodd Carolyn Roberts ddefnyddio'r lleoliad ger Y Caban, Brynrefail.

Lôn Garat, Dinorwig. Ateb First Hydro yn egluro bod bwriad maes o law i agor llwybr o Lôn Garat at ffordd y pwll ymchwydd.

Carthffosiaeth Maes Eilian, Dinorwig. Ateb Gwynedd mai'r rheswm am yr aroglau oedd bod yr uned trin carthion wedi gor-lenwi - gwagiwyd yr uned.

Gohebiaethau a materion eraill

Cofebion milwyr. Derbyniwyd llythyr y War Memorials Trust yn mynegi pryder ynglŷn â cynnal a chadw rhai cofebion. Gofynnwyd i'r aelodau baratoi rhestr o gofebion eu hardal a'u cyflwr erbyn cyfarfod Rhagfyr fel y gellid ffurfio rhaglen i'w hatgyweirio.

Seindorf Arian Deiniolen. Cyfeiriwyd at lwyddiant ysgubol y Seindorf yn y cystadlaethau yn Llandudno ddiwedd Mis Hydref a phenderfynwyd danfon gair i'w llongyfarch.

Mapiau Hanes y Cyngor. Cyfeiriodd Richard LL Jones at un o deithiau cerdded Gareth Roberts a fynychodd – roedd canmol mawr ar gynnwys y map a Gareth yn ei dro yn diolch i Gyngor Llanddeiniolen am y syniad gwreiddiol.

Cynllunio. Rhyfeddwyd at Gyngor Gwynedd yn caniatáu codi 27 o Dai yn Neiniolen a dim ond un o'r tai newydd dros y ffordd i'r ysgol wedi ei werthu.

Beran. Cyfeiriwyd at nifer fawr o geir ar werth yno, 6 yw'r caniatâd cynllunio – llythyr i Wynedd.

Rhif 1, Cefn Coed, Penisa'rwaun. Dywedwyd bod biniau'r eiddo yma yn cael eu gadael wrth ochr y ffordd fawr bron yn barhaol – llythyr i Wynedd (Steffan Jones).

Brynrefail. Cyfeiriodd Carolyn Roberts at y diffygion canlynol:

Tyllau yn ffordd rhwng Trem Eilian a'r ffordd fawr;

Cerrig o wal y cae chwarae wedi disgyn (llythyr i Wynedd);

Dŵr yn aros ar groesfan Trem Eilian.

Cynllunio. Derbyniwyd ateb Mr Gareth Jones, Uwch Reolwr Gwasanaethau Cynllunio Gwynedd, i ymholiadau'r Cyngor – penderfynwyd danfon copi i bob aelod.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Fro Dawel, Lôn Metta, Llanrug – codi estyniad i wneud anecs.

Bryn Meddiant, Fachwen – codi teras o flaen yr eiddo.

5, Bryn Teg Terrace, Rhiwlas – estyniad un llawr to fflat ar ochr yr eiddo.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 3ydd o Ragfyr

Adroddiad o gyfarfod a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fawrth y 15fed o Hydref.

Estynwyd cydymdeimlad y Cyngor i Derek Jones ar ei brofedigaeth o golli un o'i frodyr yn ddiweddar, ond dymunwyd yn dda iddo ef a'i briod ar achlysur dathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol.

CROESAWU PAULA ROBERTS:

Mewn cyflwyniad dywedodd y Dr Paula Roberts fod grŵp bychan wedi ei ffurfio yn lleol i weld a ellid creu ynni adnewyddol yn y dyffryn. Roedd y sylw i ynni o ddŵr a'r haul. Er mai newydd ddechrau yr oedd y criw roedd yna rai syniadau pendant lle'r oedd modd creu ynni gan gadw rheolaeth ac elw yn lleol. Roedd y grŵp wedi edrych ar waith cymunedol cyffelyb mewn ardaloedd eraill, ond hyd yma heb benderfynnu ar ffurf derfynnol y grŵp. Y camau nesaf fydd gweld beth fydd y posibilïadau o rai o'r nentydd lleol a chwilio am arian i fuddsoddi yn y cynlluniau os gwelir eu bod yn ymarferol. Roedd rhai o'r cynlluniau yma yn debyg o dalu amdanant eu hunain mewn cyfnod o 6 i 8 mlynedd gan adael elw cymunedol sylweddol. Y gobaith oedd gweld cynhyrchu ynni o fewn blwyddyn a hanner i ddwy flynedd.

Diolchwyd i Paula Roberts am ddod i'r cyfarfod a rhoi gwybod o fwriad y grŵp. Dymunwyd yn dda iddo.

MATERION

Adroddwyd bod wyneb newydd ar Ffordd Capel Coch

Cae'r Ddôl: Mewn trafodaeth bellach ar y cae, nodwyd bod angen cofnodi a rhoi gwybod i Parc Padarn os oes yna ymyrryd a hawliau pobl sy'n defnyddio'r cae.

Parc Bach: Codwyd mater perchnogaeth Parc Bach. Er bod y Cyngor bellach yn credu fod y tir yma ym mherchnogaeth Gwesty Victoria roedd gan Emlyn Baylis lythyrau yn nodi yn wahanol. Penderfynwyd bod angen ail edrych eto i weld pwy oedd y perchennog. [Rhif Teitl: CYM 134128]

Wi-fi Y Ganolfan:

Holwyd a oedd gan ddefnyddwyr Y Ganolfan hawl i ddefnyddio'r cysylltiad rhyngwrwyd trwy'r Wi-fi. Penderfynwyd holi ysgrifennydd y Ganolfan. Nodwyd hefyd bod angen symud ymlaen i ddatblygu gwefan i'r Cyngor.

Cyfarfodydd y Cyngor:

Gofynnwyd i'r Clerc sicrhau fod pob aelod yn ymwybodol os bydd yna newid dyddiad y Cyngor, a hynny ddigon ymlaen llaw.

GOHEBIAETH:

Mainc: Cytunwyd i gais Gwesty Padarn Lake am gael lleoli un o'r Meinciau Coffa yn y Fynwent yn Nantperis. Cytunwyd gyda'r amod y byddai'r Cyngor yn gyfrifol amdani am gyfnod o 5 mlynedd.

Cais Ariannol: Penderfynwyd na allai'r Cyngor gefnogi cais y timau peldroed am gymorth ariannol tuag at brynu rhwydi i'r cae. Roedd y Cyngor eisioes wedi rhoi cyfraniad hael tuag at weithgarwch y Clwb fis yn ôl.

Arwyddion: Cafwyd nodyn yn gofyn i'r Cyngor fynd ar ôl nifer o fusnesau sydd wedi codi arwyddion uniaith Saesneg yn ddiweddar i geisio eu perswadio i roi rhai dwyieithog yn eu lle. Cytunwyd.

Dogfen Ymgynghori ar Ail gartrefi: Trafodwyd y ddogfen a chytunwyd y dylid gwneud rhywbeth i atal y twf yn nifer ail gartrefi. Roedd rhai aelodau yn aneglur ynglŷn â'r diffiniad o ail gartref.

Diogelu Coed: Dim gwrthwynebiad i gynllun diogelu coed.

CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

• **C13/0984/15/LL** - estyniad, ffenestr bae, a modurdy dwbl - **13 Maes Padarn, Llanberis** - dim sylw

2. APCE:

• **NP3/15/215** - cynllun trydan dŵr arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbîn a gosod pibellau dan y ddaear - **Afon Lâs, Pont Gwastadnant, Nantperis** - dim gwrthwynebiad o ran egwyddor ond holwyd a oedd angen tynnu'r dŵr o gymaint pellter a beth fyddai effaith hynny ar fywyd gwyllt yr afon?

BARRYS

GLASS

FFENESTRI • DRYSAU

Conservatori UPVC


Trwsio Unedau

"DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772

Symudol- 07840 794269



Ar ben arall i'r lein

Gyda'r flwyddyn yn prysur ddod i ben "sut dymor oedd hi" fydd y cwestiwn fydda i'n glywed yn aml, a'r ateb, wrth gwrs, ydi "yn gyffredinol reit dda, ond ar Lyn Padarn a'r Seiont, wel gwarthus". O ble mae'r cyffredinol dda yn dod, wel yn ffodus i'r gymdeithas mae llynnoedd Cwellyn, Dywarchen, Nantlle, Cwm Silyn a Cwm Dwythwch wedi pysgota yn eithriadol o dda ac heb flewyn ar dafod, mae'n wir dweud fod rhain yn cynnig, o bosib, y pysgota brithyll brown gwyllt gorau yng Nghymru. Mae galw mawr am bysgota fel hyn yn enwedig gan ymwelwyr o dros Glawdd Offa, eleni mae tua 40% mwy wedi gwneud defnydd o'r llynnoedd, a hyn o ddiwedd Mawrth, a bydd pysgota yn dal i fod yn bosib ar Lyn Dywarchen hyd at ddiwedd Tachwedd, brithyll yr enfys yn unig.

Dydw i erioed wedi bod yr rhyw or-hoff o'r syniad o roi wyau'r economi leol i fewn i'r un fasedd sy'n cael ei galw'n dwristiaeth gan nad rhywbeth dros dro yw'r busnes ymwelwyr, a rhyw ychydig dros dri mis o'r flwyddyn yw'r cyfnod y gellir ei alw yn eithriadol o brysur. A, mewn difri, nid yw hyn yn ddigonol i roi llwybr gwaith llewyrchus i'n ieuencid sy'n dewis neu'n gorfod gweithio yn y maes yma. Mae'n berffaith wir nad rhyw gangen o'r busnes twristiaeth yw pysgota, ond drwy cael pysgota llewyrchus mae'n bosib ymestyn y tymor o'r 20ed o Fawrth i ddiwedd Tachwedd. Yn ogystal â hyn mae'r gwaith paratoi at y pysgota ei hun yn cario ymlaen drwy weddill y flwyddyn. A chyn belled ac mae'r gymdeithas leol yn y cwestiwn mae gwaith angenrheidiol i'w gwneud yn y ddeorfa yn Crawia ble mae, ar y foment, oddeutu 8,000 o leisiaid yn tyfu gyda'r gobaith y byddant yn mudo i'r môr at ddechrau Mai 2014. Dyma un o'n cynlluniau i geisio adfer pysgota'r Seiont a Phadarn. Cawn weld yn ystod haf 2015 a fydd y pysgod bach yma yn ymddangos yn ôl yn yr afon wedi eu siwrnai i ddychwelyd i'w man geni o'r moroedd sy'n amgylchynu'r Ynys Las a Gwlad yr Iâ.

Be sydd a wnelo hyn i gyd â'r economi, meddech chi. Wel, mi ydw i di bod yn pregethu yn yr Eco, a llawer cylchgrawn arall am y niwed mae llygredd Llyn Padarn wedi'i gwneud i'r dyfroedd a sut mae hyn wedi difetha beth oedd ymysg y pysgota gorau yn y wlad. Mae'r difrodi yma wedi dod â'r torgoch at drothwy ei ddifodiant. Dydw i ddim am ail adrodd canlyniadau ein pwyllgorau diri na chwaith yr ymdrech sy'n mynd ymlaen yn yr Uchel Lys i geisio cael Adolygiad Barnwrol ar benderfyniadau Adnoddau Naturiol Cymru. Ond, o rhywle mae rhyw weddnewid wedi dod ar agwedd yr awdurdodau a'u parodrwydd yn awr i gydweithio. Fe amlygodd hyn ei hun pan gefais y dasg o dynnu allan ddogfen ar awgrymiadau'r gymdeithas i adfywio'r dalgylch.

Mae'r ddogfen yn awr wedi ei chwblhau a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod Rhagfyr gyda'r Gymdeithas, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, 1st Hydro, Cyngor Gwynedd, Parc Eryri ac Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy Clwyd a Gwynedd. Cefais gefnogaeth a chydweithrediad arbennig yn y gwaith o baratoi'r cynllun gan ddau o brif swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mangor, sef Alan Winstone a Bob Edwards. Hefyd mae ein aelod, Cynulliad Alun Ffred Jones, yn haeddu canmoliaeth o'r radd uchaf am yr arweiniad mae wedi ei roi yn y pwyllgorau, a hefyd yn nghadw i mewn trefn!

Ond lle mae cyfleon i'n ieuencid a'r economi yn ffitio i mewn i hyn i gyd? Wel, yn y ddogfen mae pwyslais mawr yn cael ei roi ar uwchraddio'r ddeorfa yn Crawia. Mae adolygiad ar yr offer a be sydd ei angen yn ychwanegol yn cael ei gwneud gan arbenigwyr yn y maes o'r Alban. Mae ei sylwadau yn dweud fod yma uned hynod o addawol a gyda rhyw ychydig fuddsoddiad mae'n bosib magu hyd at 50,000 o leisiad yn flynyddol. Yn ogystal â hyn mae'r ddeorfa yn ganolfan ble mae holl weithgareddau'r dyfroedd, sef glanhau'r glannau, gwneud camfâu, cynnal y cychod a, gyda buddsoddiad gan yr ymddiriedolaeth afonydd i wella'r cynefinoedd, bydd gwaith drwy'r flwyddyn ar gael, ond i ddechrau drwy osod contractau i fusnesau lleol. Ond yn y byd magu pysgod, os daw pethau at ei gilydd fel rydym yn ei obeithio bydd cyfleon addysgol arbennig ar gael.

Ni fuasai'n deg ehangu ar hyn ar y foment, ond yn ystod yr ail wythnos o Dachwedd cefais gyfarfod gyda adran Gwyddorau Eigion o Brifysgol Bangor, gyda'r pwrpas o gytuno contract i astudio geneteg y torgoch. Ia cofiwch, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Adran Gwyddorau oedd yn trafod, yna yn gwrandao a rhoi gwybodaeth lleol am y pysgodyn arbennig yma oeddwn i, rhag ichi feddwl fy mod wedi bod yn astudio ar y slei!

Ond tybed a fuasai gwaith mewn pysgodfeydd yn denu sylw rhai o ddisgyblion ysgol Brynrefail? Dyma chi y cyfle i dorri dŵr yn y maes, a gyda popeth sy'n digwydd ar y foment ar cydweithio clos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, y Gymdeithas a'r Brifysgol - wel dyna chi felly y cyfle i gael eich pig i mewn efallai i astudio maes diddorol ac o bosib gwaith â gafael ynddo wedyn. Rŵan ydi'r amser, gyda'r holl ddiddordeb sy'n digwydd ar ein dyfroedd.

Cofiwch, aelodau, bydd y Pwyllgor Blynnyddol yn cael ei gynnal am 7.00 nos Iau, 12 Rhagfyr 2013 yn yr Institiwt, Caernarfon. Gwenwch pob ymdrech i fod yn bresennol gan fod materion holl bwysig i'w trafod.

Dyna ni unwaith eto, heb drin fawr ddim ar y pysgota, ond gobeithio daw cyfle i roi rhyw bwt bach yn y rhifyn nesaf, os na bydd yna dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd ddedwydd a llewyrchus i chwi oll, a diolch dros ben am roi i fyny â mi, fy ffrindiau bach a'r holl bregethu dros flwyddyn arall.

Huw Price Hughes.

O.N. Bydd Adroddiad Blynnyddol y Gymdeithas Bysgota gan y Cadeirydd, y Dr Robin Parry yn cael ei gynnwys yn y rhifyn nesaf.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

ARVONIA



- Tocynnau Anrheg Gwyliau ar gael yma
- Gofynnwch am ein 'Brochure' Gwyliau Newydd

Y Sgwâr, Llanrug
Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth bawb yn siop



LONDIS
FFORDD YR ORSAF
LLANRUG

LONDIS

Ffôn: 672937
Y gwerth gorau'n lleol

- Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Dewis da o fwyd a diod i ddathlu'r Wyl o ben bore tan yn hwyr y nos!

O'R BAW

Mi fedraf feddwl am bethau gwell i'w gwneud ar fore Gwener. Unrhyw fore o ran hynny. Mae 'na ddraen yn rhedeg o flaen ein tŷ ni, ac mae caead y draen yng nghanol y dreif. Oherwydd problem yr algae yn Llyn Padarn, mae'n rhaid cadw golwg manwl ar y draeniau'r dyddiau hyn. Y bore 'ma, be' welwn trwy'r ffenest ond treipod wedi ei osod uwch y draen agored, a dyn a harnais am ei ganol yn cael ei ollwng i dwll y draen cul gerfydd weiren denau oedd ynghlwm wrth yr harnais a'r treipod. Aeth o'r golwg i'r draen a gallwn glywed ei gydweithiwr yn rhoi cyfarwyddiadau iddo o ben y twll. Diolch am hynny, o fewn ychydig funudau fe drodd y dyna a safai uwch y draen handlen ar y treipod, ac fe godwyd y dyn i'r lan yn ddiogel. Roedd o wedi cael ei ollwng bedwar medr i lawr y twll cul, ac wedi sefyll mewn troedfedd o ddŵr a baw yng ngwaelod y draen. Petai'r treipod neu'r weiren wedi torri neu petai'r cydweithiwr wedi penderfynu mynd am baned, byddai'n ddrwg iawn arno!

Ac yn syml iawn onid dyna yw ffydd. Yn ôl a ddywedodd y dyn wrthyf wedyn (gan fod dameg amlwg o flaen fy llygaid, roedd rhaid i mi fynd allan i fusnesu) roedd y draen yn ddyfnach na'r arfer. Hyd y gwelwn, doedd yna ddim ysgol i lawr ochr y twll, a byddai'n anodd os nad amhosibl iddo ddod allan ar ei ben ei hun. Roedd o'n gwbl ddibynnu ar y weiren a'r treipod a'i gydweithiwr. Fedrai wneud dim drosto'i hun, ond dibynnu'n llwyr.

Ac fe'i tynnwyd, diolch am hynny, o'r baw (yn llythrennol felly!) A thrwy ffydd yn Iesu Grist y cawn ninnau ein codi o faw ein pechod. Doedd yr hyn a welais y bore hwnnw ddim yn ddarlun perffaith wrth reswm, a hynny ar ddau gyfrif o leiaf. Yn gyntaf, yn wahanol iawn i'r olwg oedd ar y dyn dewr a godwyd o'r draen, fe gawn ni ein gwneud yn berffaith lân wrth gael ein codi o'r baw gan fod Duw yn maddau pob pechod a bai. Ac yn ail, fe arhosodd y cydweithiwr ar ben y twll, ond er mwyn ein codi ni o'r baw fe ddisgynnodd Iesu Grist i'r twll atom. Fe ddaeth i ganol mwd a baw ein byd, ac fe gymerodd holl faw a drewdod ein bywydau pechadurus ni arno'i hun, a rhoi i ni ei lendid ei hunan.

Ymddiriedaeth lwyr oedd angen ar y dyn. Heb hynny fyddai o byth wedi mynd i lawr i'r twll. Ymddiried yn llwyr yn yr offer ac yn y dyn oedd yn trin yr offer hwnnw. Ac ymddiriedaeth yn y Gwaredwr yw ein hangen ninnau. Ymddiriedwn yn llwyr yn yr Un nad arhosodd ar ben y twll i'n codi ohono ond a ddisgynnodd atom i'r gwaelod a chyfnawid lle â ni.

JOHN PRITCHARD

Peidiwch gori ar stori



dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug **07766956673** gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Chwaraeon

COLLI 'DYN FFWTBOL'



Daeth cysgod dros Eithin Duon yng ngholled disymwth Bryn Davies. Os bu dyn ffwtbol erioed yna Bryn oedd hwnnw. Ac os ffwtbol yna clwb Llanrug oedd ei fywyd.

Braint fawr i Bryn oedd ei godi'n Aelod am Oes Clwb Pêl-droed Llanrug yn 2012.

Y mae ein dyled yn amhrisiadwy i rai fel Bryn sy' mor deyrngar i'n clybiau lleol. Roedd Bryn mewn olyniaeth 'Llanrug' gan i'w dad Arfon wasanaethu y clwb am sawl blwyddyn. Yn ei dro bu Bryn yn bwyllgorddyn am sawl blwyddyn ac yn ysgrifennydd a chadeirydd y clwb. Teyrnged iddo yw'r ganmoliaeth â ddaw am y cyfleusterau safonol iawn sydd yn Eithin Duon erbyn hyn. Bu'n ddatblygiad graddol ond i bwrpas. Yn yr un modd y balchder sydd yn y clwb am y nifer o chwaraewyr wirioneddol lleol sydd wedi

dod drwy rengoedd yr adran ieuenctid i gymeryd eu lle yn y timau hŷn. Yn sicr, bu'r sylfaeni a osodwyd yng nghyfnod Bryn yn dwyn ffrwyth.

Teyrnged perffaith i Bryn fuasai gweld Llanrug yn esgyn y tymor hwn, ac yn yr oes fodern y cyntaf i chwarae un lefel o dan y Gyngair Genedlaethol. Rwyn siwr ar hanner amser mewn ambell i gêm glos, bydd Aled yn siwr o ddweud "C'mon hogia", i Bryn."

Yn fwy na dim, cefnogwr oedd Bryn, ac mae sawl dyfarnwr – fi yn eu mysg – wedi bod yn ymwybodol o'r llais cryf a ddeuai o'r dorf. Roedd Bryn yn un parod ei farn, ac yn lais pendant dros y 'clybiau bach'. Disgwyliai yr un teyrngarwch gan yr awdurdodau tuag at y clybiau a roddai ef ei hun.

Roedd tynnu coes yn ran allweddol o sgwrs Bryn wedi gêm, a rhaid i mi gyfaddef i mi 'fachu' rhy hawdd yn aml. Efallai mai paratoi ar gyfer y tro nesaf deawn i ddyfarnu yn Lanrug roedd Bryn!

Bydd gweld y golled mewn sawl man, ond yn naturiol ar yr aelwyd yn Llanfairpwll y teimlir fwyaf, ond bydd y gadair wâg a'r sgarff goch wedi'r dagrau rwy'n siwr yn denu ambell i wên hefyd. Mae ein cydymdeimlad gyda Barbara a Ffion a'r teulu. Rwyn siwr fod y dorf sylweddol a ddaeth i Gapel y Rhôs yn siarad drosto'i hyn. Fel dywedodd un, 'crebrwng ffwtbol' go iawn. Buasai Bryn wedi ei blesio'n fawr.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



Dringwyr lleol ar i fyny..

Mae brawd a chwaer o Lanrug yn parhau i gael llwyddiant cenedlaethol ym myd dringo. Yng Nghystadleuaeth Ddringo Agored Cymru a gynhaliwyd yng nganolfan ddringo Beacon yng Nghaernarfon ddechrau Tachwedd, daeth Kieran Forrest yn gydradd gyntaf yn ei ddosbarth oedran, gan rannu'r

tlws gyda dringwr o Ganolbarth Lloegr. Daeth ei chwaer, Caitlin, yn ail i ferch o dde Cymru yn ei dosbarth oedran hithau. Mae'r ddwy ferch a ddaeth i'r brig yn aelodau o dim dringo Cymru ar hyn o bryd.

Dyma'r gystadleuaeth fwyaf o'i bath i Ganolfan Beacon ei chynnal ers symud i Gaernarfon o'r Ceunant, gan ddenu bron i ddau gant o gystadleuwyr o bob rhan o Brydain. Roedd tri aelod o dim dringo presennol Prydain yn cystadlu yno, gan wneud yn siwr fod y dringwyr lleol ar flaenau eu traed gydol yr amser!

Roedd adran i ddringwyr hŷn yn cael ei chynnal yr un pryd hefyd, a daeth tad Kieran a Caitlin, sef Chris, yn ail yn ei ddosbarth, gyda Graham Desroy o Lanberis yn gyntaf.

Daeth llwyddiant pellach i ran Kieran pan ddaeth yn ail mewn cystadleuaeth Ddringo Agored Prydain, a'r gobaith yw yr aiff un yn well mewn cystadleuaeth debyg yn Sheffield ddechrau fis Rhagfyr.

Mae Kieran (13 oed) a Caitlin (8 oed) yn aelodau o Academi Ddringo Ieuenctid Gogledd Cymru, ac yn cael eu hyfforddi gan eu tad, Chris, a gan Jon Ratcliffe, rheolwr Wal Ddringo Inde ar Ynys Môn.

Llwyddiannau rhedwyr lleol.

Er fod tymor y rasys mynydd yn dirwyn i ben, mae cystadleuthau traws-gwlad a ffyrdd yn parhau, ac y mae rhedwyr bro'r "Eco" yn dal i wneud eu marc. Llongyfarchiadau i Alun Vaughan (Llanberis gynt) am redeg Marathon Dulyn mewn amser o 2 awr 24 munud a 32 eiliad. Dyma'i ail farathon eleni yn dilyn ei lwyddiant yn Llundain yn gynharach.

Yn Leeds ddiwedd Tachwedd, roedd Mathew Roberts, Llanberis, yn cynrychioli Cymru yn ras 10k Leeds Abbey, a rheddodd ei amser cyflymaf erioed dros y pellter, gan orffen mewn 31 munud a 23 eiliad.

Ras olaf y tymor rhedeg mynydd yn draddodiadol yn Eryri yw Ras Penmaenmawr, a Dylan Wynn Jones (Deiniolen gynt) ddaeth yn fuddugol gan guro pencampwr y llynedd. Gorffennodd y ras 10 milltir gyda bron i 2,000 o droedfeddi o ddringo mewn 75 munud a 52 eiliad.

Ond peidied ag anghofio'r merched chwaith! Dewiswyd Maggie Oliver o Ddinorwig i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Traws-Gwlad Meistri Prydain ac Iwerddon yng Nghaerdydd ddiwedd fis Tachwedd, a daeth tim Cymru yn drydydd, gan ennill y fedal efydd yn y categori i ferched dros 65 oed. Na, does mo'r fath beth a heneiddio ym myd rhedeg!

Bydd Clwb Rhedwyr Eryri yn cynnal eu ras hwyl flynyddol o amgylch Llyn Padarn fore Sul, 22ain o Ragfyr, gan gychwyn o Westy'r Fictoria am 11.00 y bore. Croeso cynnes i bawb (does dim rhaid bod yn aelodau), gan gynnwys plant a theuluoedd. Bydd cystadleuaeth gwisg ffansi a dyfalu amser Sion Corn yn rhan o'r dathliadau. Cawl a mins pei i bob cystadleuydd.

SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD

SYMUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

COFIO 8 : MERCH YN ARLOESI YM MYD RYGBI.



I'r Winllan, Penisarwaun y crwydrais y tro hwn i holi un o chwaraewyr blaenllaw rygbi merched sef Cennin Eifion.Wedi graddio mewn Amaethyddiaeth – yn olyniaeth achau Sir Drefaldwyn – mae Cennin bellach yn athrawes yn Ysgol Talybont, Dyffryn Conwy. Mae Cennin yn weithgar hefyd gyda Chlwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon, ac yn uchel ei pharch ym myd datblygu a beirniadu defaid.

Dechreuodd diddordeb Cennin mewn rygbi drwy fynd yn ddim o beth i wyllo Eifion ei thad yn ymlafnio am sawl tymor fel bachwr yn rheng flaen Clwb Rygbi Caernarfon. Ar yr adeg hynny prin iawn oedd y sôn am rygbi merched yng nghadarnle'r bêl-droed, heb sôn am gyfle i chwarae'r gêm. Os am gyfle i chwarae roedd gofyn teithio cryn bellter.

Yr un ydy'r sefyllfa heddiw gan mai Caernarfon yw'r unig dîm merched yn y Gogledd.

Felly daw merched o Bwllheli a'r Blaenau draw i ymuno â'r Cofis. Tipyn o ymroddiad yn sicr.

Teg yw gwneud y gwahaniaeth yn agwedd yr FAW i'r URC. Buddsoddwyd yn helaeth gan yr FAW i sefydlu strwythr datblygu, hyfforddi a chyngreiriol genedlaethol. O'r herwydd bu datblygiad rhyfeddol ym mhêl-droed merched a'n timau oedrannol cenedlaethol erbyn hyn yn ennill parch ar lefel Ewropeaidd. Mae'n gofyn tipyn o hunan gyfraniad i'r merched yn y byd rygbi.

Pan oedd Cennin rhyw 14 oed sefydlwyd tîm merched Eryri oedd yn chwarae mewn gemau rhanbarthol. Dyma ddechrau'r datblygiad i Cennin. Roedd wrth ei bodd yn ymarfer ac yn amlwg fel prop yn un oedd yn dysgu'n gyflym. Efallai fod ganddi hyfforddwr da ar yr aelwyd? Rhyw fangre tywyll yw'r rheng flaen ym mhob gêm rygbi!

O'r diwedd roedd tipyn o strwythr i ddatblygiad Cennin, gydag ymarfer cyson gyda chlwb Caernarfon. Yn 18 oed roedd yn cael chwarae i'r tim hŷn ac yno bu hi. Y tymor yma Cennin yw capten y tîm a bu'n dymor lled lwyddiannus.

Yn gynghreiriol mae dwy haen i rygbi merched ar lefel y gynghrair genedlaethol. Mae 4 tîm yn ffurfio'r Uwch Gynghrair. Yna yn Adran 1 – ble mae Caernarfon – chwaraeir chwe gêm gynghrair yna gemau cyn-derfynol a ffeinal. Wedi'r gemau hyn roedd Caernarfon yn yr ail safle, gyda Eifion yn reolwr y tîm.

Ym mis Ionawr bydd gemau cwpan. Fel cwpan Heineken fe rennir y clybiau i wahanol grwpiau. Wedi'r gemau grwp bydd y clybiau ar sail eu safle yn cystadlu am y Prif Dlws neu yng nghystadleuaeth y Plât. Yn y ddau dymor diwethaf mae Caernarfon wedi cyrraedd ffeinal y Plât, a cholli y ddwy waith i'r un tîm, Blaendulais (Seven Sisters) o Gwm Nedd. Tair gwaith yn lwcus tybed, eleni?

Ond bydd Cennin yn chwarae ar lefel uwch hefyd. Wedi gemau prawf yn ddiweddar dewiswyd tair o'r clwb, Cennin, Nia Thomas a Jen Cavanagh i gynrychioli carfan y Sgarlets. Bydd y tîm yma yn herio'r rhanbarthau eraill – Y Gweilch, Y Dreigiau a'r Gleision. Mae Cennin hefyd ar gyrion y garfan genedlaethol. Wedi'r gemau treial bydd rhestr o 28 yn cael ei dewis ac yna ei thorri lawr i garfan genedlaethol o 24. Mae Cennin yn un o'r 28, ac yn ymdrechu'n galed i gyrraedd y 24 dethol.

Ond mae cyfraniad arall pwysig gan Cennin. Cymerodd ddiddordeb cynnar mewn sgiliau hyfforddi. Mae hyn yn gyfraniad pwysig ar lefel clwb o gael hyfforddwyr trwyddedig. Ond mae Cennin hefyd bob nos Iau yn hyfforddi tîm dan 18 Gogledd Cymru. Mae'n ymfalchio yn ymroddiad y criw ifanc yma ac yn eu ffyddlondeb. O'r sylfaeni cynnar hyn mae Cennin yn gobeithio y bydd rygbi merched y Gogledd yn denu'r un sylw a'u cyfoedion gwrywaidd draw ar Barc Eirias. Diolch i Cennin ac Eifion am eu croeso hwyliog – ac i Judith am y banad!

Chwaraeon



Parhau mae rhediad arbennig tim Llanrug. Erbyn hyn maent yn drydydd cyfforddus yn eu hadran. Efallai bydd y methiant yn y prif gwpannau yn gaffaeliad i ganolbwyntio ar y gemau cynghrair. Ni fu Dinbych mor awdurdodol yn ddiweddar ac mae canlyniadau Llanrug yn erbyn y prif dimau yn addawol iawn. Mae'r ail dim ar rediad hefyd ac yn dynn ar sodlau ail dim Llanberis ar frig Cynghrair Arfon. Da cael darbis a rhywbeth arnynt y tymor yma. Dal i wegian mae tim cyntaf Llanberis. Nid yw Ffordd Padarn yn gadarnle mwyach.

Bydd gofyn cael pwyntiau yn fuan rhag eu sugno i'r tri isaf. Ar frig eu hadran mae'r ail dim, ac ar rediad da yng Nghwpan Iau y

Gogledd. Byddent yn aros i weld beth yw canlyniad ymchwiliad yr awdurdodau yn dilyn 'digwyddiad' yn ystod y rownd olaf yn erbyn Prestatyn. Da gweld ambell i chwaraewr ifanc lleol yn gwneud eu marc yn y tîm yma.

Ni fu'n fis addawol i'r Beganifs. Wedi dechrauad boddhaol meant wedi llithro i lawr y tabl. Un o'r rhesymau yw'r nifer o gemau cwpan yn ddiweddar. Byddent yn siomedig o golli 1-0 yn erbyn y Cofis yng Nghwpan Canolradd y Gogledd. O ennill eu gemau mewn llaw dylsai'r Waun gyrraedd safle cyfforddus yng nghanol y tabl.

OES GWERSI I'W DYSGU?

Fel anrheg penblwydd 'arbennig' cefais fynychu gêm Cymru yn erbyn De'r Affrig. Dyma gêm gorfforol go iawn, a'r llu anafiadau i chwaraewyr allweddol yn creu penbleth i Gatland a'r criw hyfforddi. Rwyn ysgrifennu'r llith yma wedi'r llwyddiant yn erbyn yr Ariannin ond cyn y gemau yn erbyn Tonga ac Awstralia. Amser â ddengys os yw'r dyfnder gallu cynhenid yn y chwaraewyr wrth gefn. Dyma brawf medd rhai os yw'r dull ranbarthol ar y lefel uchaf yng Nghymru yn cynhyrchu chwaraewyr o safon ryngwladol wedi'r holl fuddsoddi. Mae rhai yn gofyn os yw'r ffrydlif o'n prif chwaraewyr i Loegr a Ffrainc yn awgrymu – ar wahan i'r arian mawr – fod y chwaraewyr yn barnu fod angen gemau mwy cystadleuol arnynt i baratoi ar gyfer y lefel uchaf. Yn sicr, fel cenedl, gallwn ymfalchio yn ymroddiad y garfan i'r 'crys coch'.

Roedd dau o Johannesburg yn eistedd drws nesaf i mi. Roeddent wedi gwirioni ag awyrgylch arbennig y stadiwm, a'r canu gwefreiddiol. (Cymerais y cyfle i'w hatgoffa mai Cor y Penrhyn oedd un o'r corau ar y dydd, a bod Sikeleili Affrica yn rhan o restr canu sawl cor Cymreig erbyn hyn). Gyda llaw, mae ambell un yn awgrymu erbyn hyn y dylsid rhoi mwy o sylw i'r corau a'r awyrgylch cyn y gêm, yn lle y rwdlan undonog gan y 'gwybodiesion' sydd i weld yn dweud yr un peth cyn pob gêm. Y mae'r awyrgylch yn rhan anatod o'r achlysur.

Ond dau sylw gan y Boks i orffen. Ni allent goelio fod stadiwm mor wych gyda maes chwarae mor drychinebus. Yn sicr, mae'n amharu ar ddull a chyflymdra'r chwarae. Beth mae'r undeb eisiau – maes chwarae penigamp neu rhywbeth gellid ei godi ar wib er mwyn y cyngherddau roc, rasmus moto beic, bocsio etc.

Ac yna'r prisiau. £60 a £70 punt am, docyn yng Nghaerdydd, £10 yn Ellis Park i wyluo yr ail dim gorau'n y byd. Rhywbeth tebyg am docyn draw yn Seland Newydd.

Efallai nad ydy pethau mor wael arnom ni yng Nghymru wedi'r cwbl!

Llysgenhadon Chwaraeon Ysgolion Cynradd y fro.

Mae un bachgen ac un eneth o bob un o ysgolion cynradd y fro wedi eu hethol yn llysgenhadon chwaraeon ar ran eu hysgolion. Fe'u dewiswyd oherwydd eu hymroddiad i wahanol chwaraeon yn hytrach nac i un gamp benodol. Mae llysgenhadon efydd yn cynrychioli oedrannau hyd at ddeg oed

Yn y llun gwelir llysgenhadon ysgolion Bethel, Cwm y Glo, Gwaun Gynfi, Llanberis a Llanrug.

